

Wylfa Newydd

Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 5: Twristiaeth

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

1.0 Pennod Twristiaeth

1.1 Trosolwg o Effeithiau

- 1.1.1 Twristiaeth yw'r sector economaidd mwyaf ar yr Ynys, yn cynhyrchu £304M y flwyddyn i'w heconomi. Mae'r sector yn cefnogi oddeutu 5,600 o swyddi ac ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd yr economi ymwelwyr i Ynys Môn, ei phreswylwyr a'i dyfodol. Bydd yr effaith dwristiaeth yng Ngogledd Ynys Môn, yn enwedig ar Gemaes ac Amlwch, yn ystod gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn sylweddol. Bydd CSYM yn chwilio am fesurau i osgoi, lliniaru a gwneud yn iawn am yr effeithiau hyn i sicrhau bod twristiaeth yn parhau i dyfu cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu Wylfa Newydd.
- 1.1.2 Mae'r Ynys yn denu 1.71 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn (2017) ac mae nifer uchel o ymwelwyr dychwel sef dros 85%. Mae'r sector twristiaeth wedi trawsnewid ei hun dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae'r cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr (o 1.39 miliwn yn 2006 i 1.71M yn 2017) a gwerth twristiaeth i'r economi (£186 miliwn yn 2006 i £304M yn 2017) yn arddangos hyn. Dyma farchnad dwf sylweddol y mae angen ei diogelu.
- 1.1.3 Yn ychwanegol at yr 1.71 miliwn o ymwelwyr, mae Caergybi yn rhoi hwb pellach i sector twristiaeth Ynys Môn. Dyma borthladd prysuraf y DU ond un, yn prosesu dwy filiwn o ymwelwyr bob blwyddyn sy'n teithio trwy'r DU a Gweriniaeth Iwerddon. Yn fwy diweddar, mae Caergybi wedi dod i'r amlwg fel prif borthladd môr deithio Cymru. Fel y cyfryw, mae'n bwysig yn strategol i'r segment hwn o'r cynnyrch twristiaeth Cymreig sy'n tyfu'n gyflym ac yn broffidiol iawn. Yn 2018, cyrhaeddodd 52 llong mordaith yn y porthladd, yn dod â 32,700 o deithwyr ac yn cynhyrchu effaith twristiaeth môr deithio o +£3M.
- 1.1.4 Daw ymwelwyr i Ynys Môn i brofi ei chymeriad unigryw a naws am le arbennig iawn, lleoliad tawel a digynnwrf ei thraethau, morluniau a'i thirweddau dramatig. Mae oddeutu 95% o arfordir Ynys Môn wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae ganddi 50km o Arfordir Treftadaeth (gan gynnwys Gogledd Ynys Môn) yn ogystal â nifer o safleoedd dynodedig Ewropeaidd a Chenedlaethol eraill.
- 1.1.5 Bydd adeiladu Wylfa Newydd a'i weithredu dilynol yn effeithio'n andwyol ar sector twristiaeth Ynys Môn. Mae Horizon yn cydnabod: *yr angen i ddiogelu'r sector twristiaeth; y pryderon eang ynglŷn ag effeithiau Wylfa Newydd ar y sector; a'r angen i liniaru'r effeithiau hyn oherwydd pwysigrwydd hanfodol y sector i economi Ynys Môn.* Bydd effeithiau'n digwydd yn ystod y cyfnod gwaith Paratoi Safle; bydd y rhain yn parhau ac yn gwaethygu drwy gydol y cyfnod adeiladu ac am gyfnod pan fydd y gweithredu'n cychwyn. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ei gwneud yn ofynnol bod mesurau lliniaru ac osgoi priodol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â maint tebygol yr effeithiau andwyol.
- 1.1.6 Bydd **adeiladu** a **gweithredu** Wylfa Newydd yn effeithio ar sector twristiaeth Ynys Môn a'i wydnwch trwy:
- a) dagfeydd traffig;
 - b) llygredd gweledol, sŵn ac aer;

- c) straen at y stoc llety twristiaeth; ei argaeledd a'i ansawdd;
- d) amharu ar gadwyni cyflenwi a staff;
- e) bygythiadau i frand twristiaeth Ynys Môn, ei henw da a chanfyddiadau ymwelwyr;
- f) pwysau ar yr hyn y mae Ynys Môn yn ei gynnig i dwristiaid, gan gynnwys yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Llwybr Arfordir Cymru (LIAC) a rhwydweithiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) ehangach ac atyniadau eraill;
- g) Effeithiau andwyol cronol

1.1.7 Mae osgoi effeithiau ar y sector a lliniaru'r cyfleoedd hynny sy'n codi yn tynnu sylw at bwysigrwydd y cyfleoedd i ddatblygu a gwella cynnig twristiaeth tywydd gwlyb yr Ynys trwy ddatblygu cyfleuster gwybodaeth gyhoeddus rhyngweithiol dros dro o ansawdd uchel a chanolfan ymwelwyr parhaol newydd, sydd y tu allan i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

1.2 Paratoi'r Bennod hon

1.2.1 Mae'r gwaith y mae'r Athro Nigel Morgan ar Athro Annette Pritchard o Brifysgol Abertawe wedi ymgymryd ag ef wedi darparu gwybodaeth ar gyfer paratoi'r bennod hon. Yn dilyn proses dendro gystadleuol ym mis Ebrill 2018, penododd CSYM benodi Prifysgol Abertawe i ddarparu arbenigedd twristiaeth arbenigol i gefnogi CSYM wrth ymateb i brosiect Wylfa Newydd. Roedd hyn yn cynnwys adolygu a choladu data sylfaenol, asesu'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, nodi effeithiau a mesurau lliniaru, drafftio pennod twristiaeth yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a darparu gwybodaeth ar gyfer sefyllfa CSYM mewn perthynas â thrafodaethau Datganiad Tir Cyffredin â Horizon. Gellir dod o hyd i gopi o'u CV's yn **Atodiad 5A**.

1.2.2 Mae'r bennod hon yn seiliedig ar yr Adroddiad Pwnc Twristiaeth y mae Prifysgol Abertawe wedi'i baratoi¹. Mae'r Adroddiad Pwnc hwn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi darparu gwybodaeth ar gyfer paratoi'r bennod hon. Dylid darllen y ddau ar y cyd er mwyn i'r Awdurdod Archwilio lawn werthfawrogi pwysigrwydd twristiaeth i Ynys Môn a'r effaith y caiff Wylfa Newydd ar y sector allweddol hwn o Ynys Môn os na chaiff mesurau i osgoi, lleihau neu ddigolledu'r effaith hon eu rhoi ar waith.

1.3 Cyd-destun

1.3.1 Mae'r economi ymwelwyr wedi arwain twf mewn economi Ynys Môn ² ac mae'r Ynys 'yn dibynnu ar sector twristiaeth ffyniannus, arloesol a phroffidiol.'³ Dyma'r awdurdod lleol sy'n dibynnu mwyaf ar dwristiaeth yn y DU gydag un o'r canrannau uchaf o gyflogaeth yn y sector twristiaeth fel canran o gyfanswm y gyflogaeth.⁴ Mae hefyd ymhlith deg ardal uchaf y DU â chyflogaeth prif swydd

¹ Gweler yr Adroddiad Pwnc Twristiaeth a baratowyd ar gyfer CSYM gan Brifysgol Abertawe, mis Tachwedd 2018. (**Atodiad 5C**)

² System Orlhain Twf Rhanbarthol, 2015; ar-lein yn ([Dolen](#))

³ Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM, 2016-2020. ([Dolen](#))

⁴ Pritchard, A. 2017. Tystiolaeth Ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gwerthu Cymru i'r Byd, ([Dolen](#))

a chyflogaeth ail swydd mewn diwydiannau twristiaeth nodweddiadol eraill fel diwylliant, chwaraeon a hamdden.⁵ 'Mae bron un rhan o bump o'r gweithwyr yn y sector llety a bwyd, bron i ddwbl lefel Cymru sef 8.9% a mwy na dwbl lefel y DU'.⁶ Mae twristiaeth yn hanfodol i gynnal economi, amgylchedd a diwylliant yr Ynys ac mae wedi cael ei chefnogi gan fentrau a rhaglenni ariannu a ddyluniwyd i fanteisio ar asedau diwylliannol, ieithyddol, hanesyddol ac amgylcheddol unigryw Gogledd Orllewin Cymru.⁷

- 1.3.2 Yn 2016, enwyd Ynys Môn yn gyrchfan gwyliau gorau ond un yn y DU. Mae ei hasedau twristiaeth mwyaf yn perthyn i'w hamgylchedd naturiol a hanesyddol, sydd wedi cael ei gydnabod a'i ddynodi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r rhan fwyaf (95%) o arfordir 201km o hyd Ynys Môn, a'i chynefin arfordirol, yn AHNE dynodedig ac yn denu nifer fawr a chynyddol o ymwelwyr i'w thraethau a'r Llwybr Arfordirol 125m o hyd. Mae gan AHNE Ynys Môn 'un o'r tirweddau mwyaf nodedig, deniadol ac amrywiol yn Ynysoedd Prydain'.⁸ Mae'n cynnwys llawer o gynefinoedd amrywiol sy'n cefnogi cyfoeth o fywyd gwyllt morol a daearol, gan gynnwys clogwyni garw, rhostiroedd, twyni tywod, morfeydd heli a fflatiau llaid.
- 1.3.3 Mae gan lawer o gynefinoedd Ynys Môn amddiffyniadau statudol, gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODDGA) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI). Mae Gwarchodfa Natur Cemlyn yn agos at Wylfa Newydd. Mae arfordir Gogledd Ynys Môn yn gartref i fywyd gwyllt sy'n bwysig yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Mae'r rhywogaethau bywyd gwyllt amrywiol, ac yn aml mewn perygl, yn cynnwys: llamhidyddion harbwr, llyswennod Ewropeaidd, morloi llwyd, gloynnod byw glesyn serenog, brithion y gors, brain coesgoch, môr-wenoliaid gwridog, môr-wenoliaid pigddu a gwiwerod coch. Mae 50km o Arfordiroedd Treftadaeth heb eu datblygu yn ategu'r AHNE: Gogledd Ynys Môn, Mynydd Tŵr a Bae Aberffraw Mae'r adnoddau arfordirol hyn wedi'u nodi fel Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) Ynys Môn ar gyfer twristiaeth ac amddiffyn, gwella a rheoli'r asedau treftadaeth a naturiol hyn sy'n cael ei gydnabod yn y Cyd-gynllun Datblygu Lleol (CGDLI) a Chanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (CCA).⁹
- 1.3.4 Mae proffil twristiaeth Ynys Môn yn anarferol oherwydd bod y degawd diwethaf wedi bod yn un o dwf parhaus, yn wahanol i'r patrymau cylchol y mae cyrchfannau eraill yng Nghymru a'r DU wedi'u profi. Mae sector twristiaeth yr Ynys wedi cynyddu'n gyson yn ystod 2006-2017 (ffigwr 1), wedi tyfu gan 63.7% o £185.89m yn 2006 i £304.23m yn 2017. O ganlyniad, mae sector twristiaeth

⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016. Crynodebau Cyflogaeth Twristiaeth ([Dolen](#))

⁶ Mark Reynolds Consulting, 2018. Datganiad Economaidd yn Cefnogi Datblygiad Gwesty Arfaethedig ([Dolen](#))

⁷ Llywodraeth Cymru 2008. Cynllun Gweithredu Môn a Menai; ar-lein yn: ([Dolen](#))


⁸ Adolygiad Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol CSYM 2015-2020, t.6. ([Dolen](#))

⁹ Cyd-gynllun Datblygu Lleol CSYM a Chyngor Sir Gwynedd, Gorffennaf 2017. ([Dolen](#))
Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018) ([Dolen](#))

Ynys Môn yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru ac yn 2017 tyfodd gan 7% tra bod y ffigurau ar gyfer Cymru wedi gostwng gan 3%.¹⁰

- 1.3.5 Mae tair o'r pum mlynedd diwethaf wedi cofnodi cynnydd o un flwyddyn i'r llall o +7.0%, sy'n adlewyrchu apêl yr Ynys fel cyrchfan gwyliau. Yn 2017, roedd ymwelwyr yn aros dros nos yn cyfrif am £272.95m (90%) ac ymwelwyr dydd yn cyfrif am £31.28m (10%) o wariant ymwelwyr. Yn achos ymwelwyr sy'n aros dros nos cofnodwyd cyfradd twf gwariant o +61% o'i chymharu â ffigurau 2006 ac mae gwariant ymwelwyr dydd wedi bron â dyblu (+93%). Yn hanfodol, roedd ymwelwyr yn aros dros nos yn cyfrif am 91% o'r holl gyflogaeth dwristiaeth ar yr Ynys.¹¹

Ffigwr 1: Dadansoddiad Economaidd - Prisiau Hanesyddol (£m)



Ffynhonnell: STEAM 2006-2017, Dadansoddiad Tuedd.

- 1.3.6 Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad sectoraidd effaith economaidd twristiaeth, yn cymharu perfformiad 2016 â 2017. Mae llety yn cyfrif am ychydig o dan chwarter y gwariant hwn (23%), siopa yn cyfrif am ychydig o dan un rhan o bump (18.5%), yna bwyd a diod (17.4%). Mae'r tabl hwn yn dwyn sylw at ba mor hanfodol y mae gwariant twristiaid i les economaidd yr Ynys a'i ledaenu ar draws nifer o sectorau a busnesau. At hynny, mae gweithgarwch twristiaeth hefyd yn cyfrif am bron i 25% o wariant manwerthu yr Ynys.¹²

Tabl 1: Dosbarthiad Sectoraidd Effaith Economaidd (£m)

Sector	% Cyfran 2017	2017	2016	% Newid
Llety	23.0	56.28	54.01	+4.2
Siopa	18.5	69.83	69.94	+7.5
Bwyd a Diod	17.4	52.86	49.17	+7.5
Trafnidiaeth	8.5	25.97	24.07	+6.9
Hamdden	7.0	21.22	19.45	+9.1

¹⁰ Papur Pwnc 4 CSYM CCA Wylfa Newydd, Datblygiad Economaidd., t.49. ([Dolen](#))

¹¹ Dadansoddiad Tuedd STEAM 2006-2017 t.13. (Atodiad 5B)

¹² Papur Pwnc 4 CSYM, Datblygiad Economaidd, t.49. ([Dolen](#))

Cyfanswm Uniongyrchol	74.3	226.17	211.64	+7.4
Cyfanswm Anuniongyrchol	25.7	78.06	72.70	+7.0

Ffynhonnell: Adroddiad Tuedd Terfynol STEAM 2006-2017.

1.3.7 Mae nifer yr ymwelwyr wedi tyfu o 1.39m (2006) i 1.71m (2017), sy'n cofnodi bron miliwn o ddiwrnodau ychwanegol dros yr un cyfnod (4.95m i 5.85m), cynnydd o 23.3%.¹³ Yn 2017, roedd ymwelwyr yn aros dros nos yn cyfrif am 60% o nifer yr ymwelwyr ond 90% o wariant ymwelwyr. Mae data STEAM yn dangos twf o un flwyddyn i'r llall mewn cyflogaeth y mae twristiaeth yn ei chefnogi. Mae defnyddio'r gymhareb sefydledig o un swydd gyfwerth ag amser llawn (FTE) fesul £54,000 o wariant ymwelwyr yn rhoi cyflogaeth twristiaeth ar Ynys Môn ar 5,629.¹⁴

Tabl 2: Cyfraniad Economaidd (£m)

	Llety â Gwasanaeth	Heb Wasanaeth
2006	27.67	135.82
2017	44.06	220.46
% Newid	+59.2%	+62.3%

Ffynhonnell: Adroddiad Tuedd Terfynol STEAM 2006-2017.

1.3.8 Mae Tabl 2 yn dangos cyfraniad economaidd y sectorau llety â gwasanaeth a heb wasanaeth (hunan-arlwy, carafán/gwersylla) i economi twristiaeth yr Ynys. Mae'r ddau sector wedi cofnodi cyfraddau twf uchel iawn rhwng 2006 a 2017 - 59.2% ar gyfer llety â gwasanaeth a 62.3% ar gyfer llety heb wasanaeth. Mae Tabl 3 yn dangos goruchafiaeth y sector heb wasanaeth ym mhroffil twristiaeth Ynys Môn.¹⁵

Tabl 3: Nifer yr Ymwelwyr (000's)

	Llety â Gwasanaeth	Heb Wasanaeth
2006	186.85	605.11
2017	214.26	705.71
% Newid	+14.7%	+16.6%

Ffynhonnell: Adroddiad Tuedd Terfynol STEAM 2006-2017.

1.3.9 Mae Ynys Môn yn denu llawer o deuluoedd, grwpiau teulu estynedig a pharau, sy'n dod am wyliau byr (42%), gwyliau hirach (31%) a gwyliau eilaidd (26%).¹⁶ Daw'r mwyafrif llethol o ymwelwyr o Ogledd-Orllewin Lloegr ac maent yn tueddu i fod yn hŷn, er bod yr Ynys yn denu'r gyfran uchaf o deuluoedd â phlant ifanc o'r holl gyrchfannau yng Nghymru.¹⁷ Yn arwyddocaol, mae dwy ran o dair o'r ymwelwyr o'r farchnad werth-uchel ABC1 y mae galw mawr amdani, a daw'r rhan fwyaf oherwydd ei hamgylchedd naturiol,¹⁸ er bod cerdded, chwaraeon dŵr a thwristiaeth bywyd gwyllt yn sectorau arbenigol allweddol. Mae teuluoedd

¹³ Dadansoddiad Tuedd STEAM 2006-2017. (Atodiad 5B)

¹⁴ Deloitte/Oxford Economics, 2013. *Tourism: Jobs and Growth. The Economic Contribution of Tourism*. VisitBritain: London. ([Dolen](#))

¹⁵ Dadansoddiad Tuedd STEAM 2006-2017. (Atodiad 5B)

¹⁶ Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM 2012-16. ([Dolen](#))

¹⁷ Croeso Cymru, 2016. Arolwg Ymwelwyr Cymru: Ymwelwyr sy'n Aros yn y DU; ar-lein yn ([Dolen](#))

¹⁸ Croeso Cymru, 2016. Arolwg Ymwelwyr Cymru: Ymwelwyr sy'n Aros yn y DU; ar-lein yn ([Dolen](#))

yn cymryd gwylliau hirach mewn carafán, a thueddir i gael mwy o'r ymwelwyr gwerth-uchel arhosiad-byr yn y sectorau â gwasanaeth a hunan-arlwygo.

- 1.3.10 Yn ychwanegol at y 1.71 miliwn o ymwelwyr, mae Caergybi yn rhoi hwb pellach i sector twristiaeth Ynys Môn. Dyma borthladd prysuraf y DU ond un, yn prosesu dau filiwn o ymwelwyr bob blwyddyn sy'n teithio trwy'r DU a Gweriniaeth Iwerddon. Yn fwy diweddar, mae Caergybi wedi dod i'r amlwg fel prif borthladd môr deithio Cymru. Fel y cyfryw, mae'n bwysig yn strategol i'r segment hwn o'r cynnyrch twristiaeth Cymreig sy'n tyfu'n gyflym ac yn broffidiol iawn, sy'n ganolog i Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf Croeso Cymru.¹⁹ Fel porth strategol i Gymru, mae Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2.8m i uwchraddio cyfleusterau porthladd Caergybi a'r seilwaith sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae twristiaeth môr deithio yn darparu un o'r ffyrdd allweddol i ddenu mwy o ymwelwyr o dramor i Ynys Môn a Chymru. Yn 2018, cyrhaeddodd 52 llong mordaith yn y porthladd, yn dod â 32,700 o deithwyr ac yn cynhyrchu effaith twristiaeth môr deithio o +£3m.
- 1.3.11 Mae gan Ynys Môn ddelwedd brand gymharol gref ymhlith ei hymwelwyr presennol, ond mae ymwybyddiaeth isel ohoni yn y DU fel brand cyrchfan i ddefnyddwyr, mae ei gor-ddibyniaeth ar Ogledd-Orllewin Lloegr yn dystiolaeth o hyn.²⁰ Canfyddir bod Ynys Môn yn wahanol iawn i rannau eraill o Ogledd Cymru ac fel ynys mae ganddi naws cryf o'i hunaniaeth unigryw ei hun a naws o'i hunan.²¹ Mae ynysoedd yn 'lleoedd ar wahân' â'u cymeriadau ei hunain ac mae Ynys Môn yn 'lle sy'n ysbrydoli, lle sy'n apelio at yr holl synhwyrâu... i weld, clywed, blasu, arogl i a theimlo... lle i ddianc o bopeth. Ond yn anad dim mae'n lle i fynd allan a gwneud.'²²
- 1.3.12 Yn amlwg, mae apêl Ynys Môn yn canolbwyntio ar ei hamgylchedd perffaith, sy'n ysbrydoli pobl i ymweld ac archwilio. Caiff AHNE Ynys Môn ei nodweddu gan olygfeydd eang, tirweddau benthyg o Eryri a Llŷn, a'r morluniau sy'n newid yn gyson, gan gyfleu canfyddiadau o 'ddinoethiad, agoredrwydd, gwylltir a theimlo'n ynysig.'²³
- 1.3.13 Nodwyd cynhyrchu a thrawsyrru ynni fel bygythiad penodol i agweddau allweddol ar yr AHNE, gan gynnwys ei golygfeydd eang a heddwch a llonyddwch. Mae llonyddwch yn fesur allweddol ac yn atyniad i'r AHNE ac yn 2009, dynodwyd bod 58% o'r AHNE yn 'llonydd.'²⁴ Yn yr un modd, mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i'r AHNE oherwydd bod 60%+ o bobl sy'n byw yn yr AHNE yn siarad Cymraeg fel eu dull cyfathrebu dyddiol. Mae clywed pobl yn siarad Cymraeg yn ychwanegu at gymeriad yr Ynys ond nid yw'n atal ymwelwyr di-Gymraeg oherwydd bod yr Ynys, i bob diben ymarferol, yn hollol ddwyieithog.
- 1.3.14 Mae'r ymchwil diweddaraf yn dangos bod gweithredwyr llety yn ymwybodol iawn bod USP Ynys Môn, enw da o ran twristiaeth a hunaniaeth brand wedi'i

¹⁹ Croeso Cymru, 2013. Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020, ar-lein yn [\(Dolen\)](#)

²⁰ Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM 2012-2016. [\(Dolen\)](#)

²¹ Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM 2012-2016. [\(Dolen\)](#)

²² Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM 2016-2020. [\(Dolen\)](#)

²³ Crynodeb Tystiolaeth CSYM, cyd-destun sylfaenol, deddfwriaethol a pholisi, AHNE Ynys Môn t. 4. [\(Dolen\)](#)

²⁴ Adolygiad Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol CSYM 2015-2020 [\(Dolen\)](#)

adeiladu o amgylch golygfeydd ei AHNE, ei thraethau trawiadol a'i harfordir.²⁵ Maent yn cydnabod mai dyma'u cyfle mwyaf i gynhyrchu ac adeiladu busnesau cynaliadwy a bod difrod i'r amgylchedd tawel hwn, ac amhariad arno, yn darparu her fwyaf sylweddol yr Ynys.

- 1.3.15 Mae pryderon o ran Wylfa Newydd a'r adeiladu cysylltiedig (fel 'malltod peilonau') yn cael eu teimlo'n llym ac mae Arolwg Ymwelwyr 2015 yn dangos y gallai presenoldeb y rhain ynddo'i hun arwain at golled ar unwaith o 10% o ymwelwyr dros nos a 10% o ymwelwyr dros 55 - y ddau'n segmentau hanfodol ar gyfer economi twristiaeth yr Ynys. Mae hefyd yn debygol bod ffigyrau o'r fath yn amcangyfrif yr effaith wirioneddol yn rhy isel oherwydd y gofynnir i ymwelwyr gynnig sylwadau ar rywbeth nad yw wedi digwydd eto.

Natur Fregus y Sector Twristiaeth

- 1.3.16 Mae Ynys Môn yn lleoliad ymylol, sy'n dibynnu ar dwristiaeth am ei ffyniant economaidd. Byddai colli unrhyw wariant ymwelwyr o'i marchnad ymwelwyr ffyddlon (o Ogledd Orllewin Lloegr yn bennaf) yn cael ei deimlo'n llym. Mae gan gyrchfannau eraill dalgylchoedd llawer ehangach. Er enghraifft, mae gan Wlad yr Haf amser-gyrru ymwelwyr o 3¼ awr ac ardal ddaearyddol a sylfaen boblogaeth lawer mwy ar gyfer denu ymwelwyr.
- 1.3.17 Mae rhwydwaith ffyrdd Ynys Môn yn wael yn gyffredinol. Fel ynys, byddwch yn ei cyrraedd dros ddwy bont - Pont Grog y Borth a Phont Britannia. Mae'r ddwy yn cynnig mynediad un lôn mynediad i Ynys Môn ac oddi yno, mae'r A55 dwy lôn yn uno i un lôn ar Bont Britannia.²⁶ Y pontydd yn bwyntiau tagu traffig a cheir tagfeydd rheolaidd ar adegau o draffig prysur²⁷. Mae unrhyw darfu yn achosi tagfeydd mawr, fel y mae traffig y porthladd sy'n cael mynediad at Lwybr Traws-Ewropeaidd Caergybi – Dulyn, y mae'r A55 yn rhan ohono.
- 1.3.18 Mae materion sy'n ymwneud â chysylltedd yn golygu bod goddefiant teithio yn llawer is na Gwlad yr Haf, â therfyn o ddwy awr. O ystyried y berthynas agos rhwng y gyrchfan a'i dalgylch (a'r cyfryngau prif ffrwd a rennir), mae ymwelwyr yn gyfarwydd iawn â'r problemau presennol o ran mynediad ffyrdd. Mae cynnydd mewn tagfeydd oherwydd Wylfa Newydd yn bryder mawr, fel y mae sylwadau rhai ymwelwyr yn datgelu: "Mae yna broblemau ar y bont eisoes" (dynes, Gogledd Orllewin Lloegr); "Ni fydd yn ddeniadol os yw'r llwybr yma wedi'i dagu" (dyn, Gogledd Ddwyrain Lloegr); "Dwi ddim eisiau bod yn styc mewn traffig wrth ddod ar wyliau" (dynes, Lerpwl).²⁸
- 1.3.19 Mae perygl amlwg y bydd economi ymwelwyr i'r Ynys yn crebachu wrth i ymwelwyr ddewis mynd ar wyliau mewn mannau eraill. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y byddant yn cael eu colli i'r Ynys yn barhaol, gan ddinistrio ei marchnad wyliau broffidiol, sy'n dychwelyd, aml-genhedlaeth (mae canran yr ymwelwyr dychwel ar

²⁵ Arolwg Gwelyau Llety Ynys Môn CSYM (Mehefin 2018) (Atodiad 5D).

²⁶ Dyma'r unig adran un lôn o Lwybr Ewro E22, sy'n ymestyn oddeutu 3,310 milltir o Rwsia.

²⁷ Yn enwedig yn y bore (tua'r dwyrain), yn hwyr yn y prynhawn (tua'r gorllewin) a phan mae'r fferi'n glanio (amser cinio ac yn hwyr yn y min nos).

²⁸ Arolwg Gwelyau Llety Ynys Môn CSYM (Mehefin 2018) (Atodiad 5D).

Ynys Môn dros 85%). Bydd teyrngarwch ymwelwyr i gyrchfan yn cael ei drosglwyddo'n gyflym os canfyddir ei fod yn anhygyrch neu ar gau ar gyfer busnes, ac mae gan Ogledd-Orllewin Lloegr gylchedd teithio mawr o fewn 2 awr. Bydd hyn yn cael canlyniadau tymor hir oherwydd bod cyrchfannau plentyndod yn dylanwadu ar ddewisiadau oedolion yn achos bron i hanner y twristiaid o'r DU.

- 1.3.20 Gallai effaith Wylfa Newydd ar y sector twristiaeth effeithio'n sylweddol ar sector sy'n agored i niwed, sy'n dibynnu'n ormodol ar un farchnad allweddol sydd eisoes yn gyfarwydd â materion traffig ar yr Ynys. Mae canfyddiadau (p'un a ydynt yn gywir ynteu'n anghywir) yn dylanwadu ar ddewisiadau ymwelwyr²⁹ a bydd syniadau bod Ynys Môn yn 'un safle adeiladu mawr' yn cael effaith negyddol ar ganfyddiadau ymwelwyr. Os caiff yr ymwelwyr hyn eu colli i'r Ynys efallai ni fyddant yn dychwelyd, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol hyn â chanlyniadau ymhell y tu hwnt i gyfnod adeiladu 10 mlynedd Wylfa Newydd. I sicrhau na fydd hyn yn cael **effaith negyddol**, mae angen mesurau lliniaru rhagweithiol a rhagataliol ar ffurf cyfraniad ariannol er mwyn i CSYM ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo a marchnata ar y cyd, a bydd hyn yn ofynnol drwy gydol y cyfnod adeiladu. Mae manylion pellach am y mesurau lliniaru arfaethedig wedi'u cynnwys yn adran 1.6).

Gweithio ar y Cyd rhwng Horizon a CSYM

- 1.3.21 Nodwyd effaith bosibl Wylfa Newydd ar y sector twristiaeth ar ddechrau'r ymgynghoriad a'r cyfnodau ymgynghori ffurfiol, sydd wedi nodi'r broses.³⁰ Yn dilyn PAC2, gwnaeth Horizon newidiadau sylweddol i'r prosiect, gan gynnwys ei benderfyniad i gynyddu'r llety gweithwyr dros dro ar y safle o 500 o weithwyr hanfodol i 4,000 wedi'u lletya ar gampws a adeiladwyd i'r diben. Gwnaeth y penderfyniad i beidio â lletya gweithwyr mewn cabanau newydd eu hadeiladu (yn Land & Lakes) ddileu'r budd gwaddol twristiaeth potensial mawr o brosiect Wylfa Newydd.
- 1.3.22 Er bod Horizon yn derbyn y bydd Wylfa Newydd yn effeithio ar y diwydiant twristiaeth, mae'n asesu bod ei effaith yn fân ac felly heb fod yn sylweddol, gan awgrymu y bydd gwariant y gweithiwr adeiladu yn gwneud yn iawn am unrhyw golledion.³¹ Mae'r Adroddiad Pwnc Twristiaeth y mae CSYM wedi'i gomisiynu (y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r bennod hon) yn dangos yn glir nad yw hyn yn wir.³² Nodwyd nifer o effeithiau allweddol, gan gynnwys: dirywiad amgylcheddol; tagfeydd traffig; llygredd gweledol a sŵn; aflonyddwch gweithwyr; difrod i frand ac enw da Ynys Môn. Bydd pob un o'r rhain yn para drwy gydol y cyfnod adeiladu a thu hwnt. Bydd angen denu marchnadoedd newydd i wneud yn iawn am golledion mewn mannau eraill ac ni fydd y Gronfa

²⁹ Morgan, N., Pritchard, A. a Hastings, E. 2012. Developing a New DMO Marketing Framework: The Case of Visit Wales, *Journal of Vacation Marketing*. 18 (1), 73-89; Selby, M. a Morgan, N. 1996. Reconstruing Place Image: a case study of its role in destination market research, *Tourism Management* (17)4 287-94.

³⁰ PAC 1, 2, 3; DCO.

³¹ Sylwch y bydd gweithwyr adeiladu yn gweithio 11 allan o 14 diwrnod gwaith ac felly'n llai tebygol o ymweld â chyfleusterau twristiaeth na thwristiaid hamdden.

³² Adroddiad Pwnc Twristiaeth y mae Prifysgol Abertawe wedi'i Baratoi i CSYM, Tachwedd 2018. (Atodiad 5C)

Twristiaeth gyfyngedig a gynigwyd yn mynd i'r afael ag effeithiau andwyol y teimlir drwy gydol y cyfnod adeiladu.

Gweithio ar y Cyd â Rhanddeiliaid

- 1.3.23 Fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, mae CSYM wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant twristiaeth ar Ynys Môn am nifer o flynyddoedd. Mae Cynllunio Rheoli Cyrchfan yn ddull arloesol ac integredig o ymdrin â datblygu twristiaeth gynaliadwy ar Ynys Môn. Mae'r dull hwn o weithredu yn galluogi'r sector cyhoeddus, twristiaeth a busnesau nad ydynt yn gysylltiedig â thwristiaeth, sefydliadau di-elw a'r gymuned i gydweithio i gyflawni amcanion cyffredin, fel cynyddu gwerth twristiaeth.
- 1.3.24 Mabwysiadwyd y dull Cynllun Rheoli Cyrchfan o weithredu yn 2012 ac aliniodd ei hun â Strategaeth Twristiaeth Genedlaethol Cymru, i sicrhau bod synergedd o ran marchnata a lleoli brand ar lefel lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ers ei fabwysiadu mae Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) Ynys Môn wedi dod yn ddatganiad cyffredin o fwriad i reoli cyrchfannau er budd yr economi ymwelwyr, yn cyfleu rolau cytûn gwahanol randdeiliaid ac yn nodi'n glir y camau byddant yn eu cymryd.
- 1.3.25 Cafodd Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn (PCYM) ei sefydlu gan CSYM yn gynnar yn 2012 fel rhan o'r CRhC i ffurfioli a gwella cyfathrebu rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae'r PCYM hefyd yn darparu cyfeiriad strategol i sicrhau bod Twristiaeth yn cael ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gan fanteisio i'r eithaf ar y manteision ar gyfer ffyniant hirdymor a lleihau unrhyw effeithiau negyddol lle bo hynny'n ymarferol.
- 1.3.26 Mae CSYM wedi bod yn gweithio'n agos â chynrychiolwyr y PCYM ar brosiect Wylfa Newydd am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd am y cynnydd, trafod materion (i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Datganiad Tir Cyffredin a'r Adroddiad ar yr Effaith Leol) yn ogystal â cheisio barn PCYM ar, er enghraifft, Arolwg Gwelyau Llety Ynys Môn 2018.
- 1.3.27 Mae CSYM yn ymwybodol y bydd PCYM yn llofnodi Datganiad Tir Cyffredin â Horizon. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod Archwilio yn ymwybodol mai CSYM sefydlodd PCYM, mae'n rhan annatod o PCYM ac mae'r safbwyntiau y mae PCYM a CSYM yn eu mynegi'n gyfystyr o ran yr effeithiau ar dwristiaeth. Fodd bynnag, mae PCYM yn dod â gwybodaeth a phrofiad ymarferol o'r sector twristiaeth ar Ynys Môn (h.y. 'ar lawr gwlad') a dyna pam bod eu mewnbwn a barn ar yr effeithiau yn hanfodol.

1.4 Polisi Cynllunio

- 1.4.1 Mae'r bennod Adroddiad ar yr Effaith Leol Twristiaeth hon yn cydnabod y ceir amryw o faterion mewn perthynas ag effaith datblygiad Wylfa Newydd ar y sector twristiaeth yn Ynys Môn. Ar sail y materion a godwyd, ystyrir bod y meini prawf canlynol o'r Polisiau yn y Cyd-gynllun Datblygu Lleol (Gorffennaf 2017) a fabwysiadwyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018) a fabwysiadwyd yn arbennig o berthnasol a phwysig.

Tagfeydd Traffig

- 1.4.2 Mae mynediad hawdd yn allweddol i dewis cyrchfan â thagfeydd ar y ffyrdd (gan gynnwys canfyddiad canfyddedig o dagfeydd ar y ffyrdd) yn cael eu gweld fel bygythiad i'r sector.
- 1.4.3 Mae *maen prawf 12 PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig* yn gwneud yn amodol y bydd pob cynnig yn cael eu gwasanaethu'n briodol gan Seilwaith Trafnidiaeth, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus ac ni fydd yn cael effaith andwyol ar gymunedau lleol a thwristiaeth; dylid dangos hyn trwy Asesiad Trafnidiaeth. Os rhagwelir effaith andwyol, dylid darparu gwelliannau priodol i'r rhwydwaith trafndiaeth a darparu opsiynau trafndiaeth cynaliadwy er mwyn lliniaru'r effaith ddisgwyliedig. Caiff egwyddor *maen prawf 12, PS 9* ei chefnogi ymhellach gan *PS 4 Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd ac Egwyddor Arweiniol (GP 5) Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd*.
- 1.4.4 Felly dylid rhoi ystyriaeth bellach i effaith y cynnig ar y rhwydwaith trafndiaeth lleol a'r gwelliant, y dylid ei geisio i liniaru'r effeithiau hynny.

Llygredd gweledol, sŵn ac aer

- 1.4.5 Yn ystod ac ar ôl adeiladu Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig mae asesiad y Cyngor yn cydnabod y bydd effaith negyddol ar y LIAC, AHNE a HTC, yr asedau hyn yw rhai o'r prif atyniadau ar gyfer yr economi ymwelwyr i'r rhanbarth a thu hwnt
- 1.4.6 Mae *Maen Prawf 8 Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig* yn nodi y dylai cynllun a gosodiad y cynllun (gan gynnwys mannau agored a thirlunio) lleddfu, lliniaru neu wneud yn iawn am effaith weledol, tirwedd ac ecolegol yr ardal lleol ac ehangach yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae *Polisi Strategol PS 19 PS Cadw a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol* yn nodi y dylid cymryd camau i reoli datblygiad er mwyn gwarchod, a lle bo'n briodol, gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir unigryw ardal y Cynllun. Bydd cynigion a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol arnynt yn cael eu gwrthod oni bai bod angen a budd y datblygiad yn y lleoliad hwnnw yn amlwg yn gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal. Mae *maen prawf 3 Polisi Strategol PS 4 Trafnidiaeth, Cynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd* hefyd yn berthnasol sy'n nodi lle dylai mesurau posibl fod i ddiogelu, gwella, ehangu a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer manteision ieuchyd, hamdden, lles a thwristiaeth. Ar ben hynny, mae *Polisi Strategol PS14 Yr Economi Ymwelwyr* yn nodi y bydd y Cyngor yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth, gan gynnwys atal datblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol annerbiniol ar nodweddion a meysydd o ddiddordeb twristiaeth neu eu lleoliadau.
- 1.4.7 Fel y disgrifir yn y Bennod hon, bydd effaith weledol y datblygiad yn ddi-os yn peryglu mwynhad ymwelwyr i'r ardal gan arwain at effaith negyddol ar y sector twristiaeth. Felly dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i briodoldeb unrhyw gamau lliniaru a gynigiwyd ac unrhyw iawndal gofynnol oherwydd y golled a ragwelir i'r economi ymwelwyr o ganlyniad i'r cynnig.

Dadleoli'r gweithlu

- 1.4.8 Mae'r cyfleoedd cyflogaeth a ragwelir sy'n deillio o ddatblygiad Wylfa Newydd ar wahân yn cyflwyno effeithiau cadarnhaol ar gyfer cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor o'r fam bod risgiau y bydd unigolion lleol sy'n gweithio yn y sector twristiaeth ar hyn o bryd yn ceisio cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd, yn ei dro bydd hyn yn arwain at dadleoli'r gweithlu a diffyg unigolion cymwys a medrus sydd ar gael i weithio yn y sector twristiaeth.
- 1.4.9 Yn unol â *Maen Prawf 9 PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig* mae angen ymgysylltiad cynnar gan yr hyrwyddwr â'r Cyngor mewn perthynas â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio'r hyrwyddwr, ag amcan i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant i'r cymunedau lleol yn y tymor byr a'r tymor hir.
- 1.4.10 Oherwydd y diffyg cyfleoedd a buddsoddiad yng nghyfleusterau addysg a hyfforddiant i'r diwydiant twristiaeth ystyrir nad yw'r cynnig yn cydymffurfio'n llwyr â'r egwyddorion ym *maen prawf 9 PS9*.

Ystyried Polisi yn Gyffredinol

- 1.4.11 Fel y nodwyd yn y Bennod hon, nid yw'r Cyngor yn ystyried y rhoddir ystyriaeth lawn i effaith y datblygiad ar yr economi ymwelwyr. Yn unol â *maen prawf 13 PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig* dylid ceisio pecynnau o fuddion cymunedol wedi'u darparu gan y datblygwyr i wneud yn iawn i'r gymuned am y faich a'r aflonyddu a orfodir trwy gynnig cartref i'r prosiect.
- 1.4.12 Hefyd gellir ystyried effaith y cynnig ar yr economi ymwelwyr yn erbyn *maen prawf 5 PS 14 Yr Economi Ymwelwyr* sy'n nodi y byddai'n rhaid i ddatblygiadau gael effaith annerbyniol ar y cyfleusterau twristiaeth gan gynnwys llety ac ardaloedd o ddiddordeb i ymwelwyr neu dylid atal eu lleoliad.
- 1.4.13 Darperir cyngor manwl am ddefnyddio'r polisiâu perthnasol y cyfeirir atynt uchod yng Nghannllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd, yn benodol adran GP 5: Twristiaeth.

1.5 Effeithiau a Thystiolaeth

- 1.5.1 Mae'r adran hon yn nodi effeithiau ar sector twristiaeth yr Ynys, y mae CSYM yn cydnabod sy'n hanfodol i economi'r Ynys.³³ Mae JLDP 2011-2026 yn cydnabod yn glir bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd fel Wylfa Newydd beidio ag 'arwain at effeithiau amgylcheddol, ieithyddol, cymdeithasol neu economaidd andwyol annerbyniol'.³⁴ Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod 'effeithiau andwyol Wylfa Newydd... yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru a lle bo'n bosibl bod buddion gwaddol priodol yn cael eu darparu'.³⁵

³³ Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM 2012-2016 a Chynllun Rheoli Cyrchfan CSYM 2016-20. ([Dolen](#))

³⁴ Cyd-GDLI Ynys Môn/Gwynedd LDP 2011-2026, 2017, t.85. ([Dolen](#))

³⁵ Cyd-GDLI Ynys Môn/Gwynedd LDP 2011-2026, 2017, t.29. ([Dolen](#))

1.5.2 Mae cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu Horizon yn cydnabod rôl hanfodol twristiaeth yn economi Ynys Môn a'r angen i liniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy greu Cronfa Dwristiaeth (swm amhenodol) i'w gwario yn dilyn monitro trwy'r broses Cod Ymarfer Adeiladu.³⁶ Fodd bynnag, nid yw CSYM yn credu bod y Gronfa Dwristiaeth arfaethedig, a'r mecanweithiau ar gyfer ei gwario, yn lliniaru'r effeithiau andwyol ar dwristiaeth yn ddigonol. Yn y bôn mae'n adweithiol, mae'n chwilio am effeithiau i'w nodi o fonitro ac yna'n ceisio'u lliniaru. Bydd yr adran hon yn nodi beth yw'r effaith a pha fesurau lliniaru y mae angen eu gweithredu i'w gwneud yn dderbyniol o safbwynt cynllunio ar sail y dystiolaeth.

Llwybr Arfordir Cymru, AHNE a HTC

1.5.3 Nodwyd Llwybr Arfordir Ynys Môn fel cyfrannwr o bwys ar gyfer economi Cymru ac Ynys Môn (£14m ar yr Ynys) ac yn atyniad mawr i ymwelwyr â'r Ynys.³⁷ Mae awdurdodau eraill Cymru yn gweld Ynys Môn fel enghraifft o ran ysgogi cyfoeth economaidd a chyfalaf diwylliannol o'r ased hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau economaidd a briodolir i'r Llwybr yn digwydd i ffwrdd o'r arfordir ei hun, oherwydd ei fod yn galluogi gwariant o fewn economïau lleol, nid mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn amlwg yn unig, ond hefyd mewn sectorau fel trafnidiaeth, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol a busnes.

1.5.4 Mae yna wahaniaethau pendant rhwng segmentau defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru (LIAC).³⁸ Mae defnyddwyr adran Ynys Môn yn tueddu i fod yn hŷn (55 yw'r oed cyfartalog), ymwelwyr sy'n aros dros nos â phroffiliau economaidd-gymdeithasol llawer uwch na'r cyfartaledd (mae bron i 80% yn ABC1). Gan adlewyrchu'r proffil hwn, mae ymwelwyr â LIAC Ynys Môn yn gwario mwy fesul noson (£85.37) na chyfartaledd Cymru (£74.11) neu arfordir Gogledd Cymru (£52.63). Yn ogystal, cofnododd defnyddwyr Llwybr Ynys Môn wariant taith ychwanegol cymedrig uchel o £18.81.³⁹

1.5.5 Er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr â LIAC yn byw yng Nghymru (59%) ac ar drip undydd (61%), mae defnyddwyr Llwybr Ynys Môn yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwelwyr sy'n aros dros nos o Loegr (56%), gan adlewyrchu ei safle fel atyniad twristaidd o bwys i'r Ynys. Yn hollbwysig, mae defnyddwyr Llwybr Ynys Môn yn arddangos lefelau uchel o deymgarwch i'r llwybr a llai o gyfnewid am lwybrau eraill - dim ond 65% fyddai'n barod i gerdded rhywle arall o'i gymharu â 93% yng Nghaerfyrddin.⁴⁰

1.5.6 Mae apêl cyffredinol Ynys Môn a Gogledd Ynys Môn yn canoli ar ei harfordir, sydd i gyd (ar wahân i Fynydd y Wylfa a Bae Cemaes), o fewn yr AHNE ac mae llawer ohono hefyd wedi'i dynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae'r arfordir yn gyrchfan poblogaidd i wylwyr bywyd gwyllt o bentiroedd yr arfordir, gan gynnwys gwylwyr adar a nodi llamhidyddion, morloi a dolffiniaid. Yn ddiweddar cafodd ei nodi yn un o'r lleoliadau gorau ym Mhrydain i nodi siarcod. Mae Gwarchodfa Natur Cemlyn yn atyniad drwy gydol y flwyddyn ar gyfer gwylwyr adar oherwydd yr adar sy'n gaeafu

³⁶ Cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu Pennod C1 para 1.3.22 t.5 a para 1.5.99 t.41.

³⁷ Llwybr Arfordir Ynys Môn ([Dolen](#))

³⁸ Beaufort Research, Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru CNC 2015. ([Dolen](#))

³⁹ Beaufort Research, Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru CNC 2015 ([Dolen](#))

⁴⁰ Beaufort Research, Arolwg o Ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru CNC 2015 a ([Dolen](#))

yno, ei gwyllanod Arctig, Cyffredin a Phenddu ac yn enwedig ei nythfa magu môr-wenoliaid pigddu; fe'i hystyrir yn 'drysor yng nghoron' AHNE Ynys Môn.

- 1.5.7 Mae maint a gwerth y farchnad gwylio adar/bywyd gwyllt yn sylweddol. Mae gan hyd at 40% o'r holl dwristiaid hamdden ddiddordeb mewn rhyw fath o wyllo bywyd gwyllt.⁴¹ Mae ymwelwyr yn y DU sy'n gwylio adar/bywyd gwyllt yn tueddu i fod yn hŷn ac mae'n well ganddynt llety carafan neu hunanarlwyo - y ddau yn farchnadoedd i Ynys Môn - ac yn gwario £68 y noson ar gyfartaledd a £379 fesul trip.⁴² Mae'n debygol y bydd effeithiau andwyol Wylfa Newydd yn amharu'n sylweddol ar y farchnad hon, sy'n amhosibl ei osgoi ac yn gofyn am iawndal trwy'r Gronfa Dwristiaeth.
- 1.5.8 Mae'n anodd cyfleu'r effaith ddramatig y bydd gwaith adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn ei chael ar y tir/morlun hwn. Ceir rhywfaint o awgrym yn y disgrifiad hwn o orsaf Bŵer Magnox Wylfa lle mae'r: 'teimlad hollbresennol o bellenigrwydd a llonyddwch yn cael ei dorri'n ddramatig gan swmp anferth Gorsaf Bŵer Wylfa... nodwedd adeiledig fawr ar arfordir sy'n amddifad o ddylanwad modern i raddau helaeth... mewn morlun sy'n adnabyddus am ei rinweddau gwyllt a naturiolaid.⁴³ Bydd Wylfa Newydd a champws llety'r safle (a fydd yn anheddiad mwyaf yr Ynys ond tri y tu ôl i Gaergybi a Llangefni)⁴⁴ a'r cyfleusterau cysylltiedig (ar y môr a'r tir) yn diwydioli'r dirwedd hon.
- 1.5.9 Mae gan yr AHNE lefelau uchel o dawelwch a llonyddwch; mae'n ardal dawel sy'n darparu 'seibiant rhag sŵn, gan wella ansawdd bywyd yn y pen draw',⁴⁵ rhinweddau sy'n werthfawr iawn i ymwelwyr.⁴⁶ Yn ogystal â hynny, mae Ynys Môn yn baradwys 'syllwyr ar y sêr... llawer mwy tywyll na llawer man arall ar draws y DU'⁴⁷ ac fel y cyfryw, mae'n ceisio ymuno ag 11 o Warchodfeydd Awyr Dywyll y byd (i'w lleoli rhwng Mynydd y Wylfa a Phorth Llechog).⁴⁸ Mae gan Gymru y nifer fwyaf o ddynodiadau a byddai achrediad ar gyfer Ynys Môn yn caniatáu iddi gael mynediad at y sector astro-dwristiaeth proffidiol (ar hyn o bryd mae 75% o 60 safle ar yr Ynys yn bodloni Safon Arian y Gymdeithas Awyr Dywyll Rhyngwladol). Ers i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddod yn bumed Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol yn 2013, mae wedi profi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y misoedd gaeaf a misoedd 'ysgwydd' ac mae wedi denu gwerth marchnata sylweddol o'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau.⁴⁹ Bydd Wylfa Newydd yn peryglu unrhyw gais am statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol yn ystod ei adeiladu.

⁴¹ The International Ecotourism Society, Maximising the value of migratory birds and wildlife for tourism, ar-lein yn [\(Dolen\)](#)

⁴² Visit Scotland Insights Department, 2017. Wildlife Tourism, ar-lein yn: [\(Dolen\)](#).

⁴³ Ardaloedd Cymeriad Morol Cyfoeth Naturiol Cymru ar-lein yn: [\(Dolen\)](#).

⁴⁴ Ar hyn o bryd Amlwch yw'r anheddiad mwyaf ond dau â phoblogaeth o 3,789 (Cyfrifiad 2011). [\(Dolen\)](#)

⁴⁵ Finding Europe's quiet areas [\(Dolen\)](#)

⁴⁶ The future of tourism [\(Dolen\)](#)

⁴⁷ Anglesey Dark Sky Experience [\(Dolen\)](#)

⁴⁸ Dark Sky Park Report: Economic Impact and Potential [\(Dolen\)](#)

⁴⁹ The Brecon Beacons' Dark Sky Reserve: five ways to see it, [\(Dolen\)](#)

- 1.5.10 Bydd effeithiau Wylfa Newydd ar fynediad at LIAC a Llwybr Copr cysylltiedig Ynys Môn, a'r defnydd ohonynt, yn sylweddol ac, mewn rhai achosion, yn barhaol. Mae Horizon yn cydnabod yr effeithiau hyn ar LIAC ond ni ddarperir unrhyw mesurau lliniaru ychwanegol. Mae Horizon yn honni, er y caiff effeithiau niweidiol mawr a chymedrol eu teimlo, rhai yn barhaol, nid oes angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol oherwydd 'nid oes unrhyw golled yng ngwerth y llwybr i'r economi.'⁵⁰
- 1.5.11 Mae'n amlwg bod angen mesurau lliniaru. Mae'r LIAC yn rhan allweddol o seilwaith twristiaeth Ynys Môn ac ased economaidd sylweddol sy'n tyfu y mae CSYM, Llywodraeth Cymru (LIC) a'r Undeb Ewropeaidd (EU) wedi buddsoddi nifer o filiynau i'w ddatblygu fel adnodd twristiaeth a hamdden. Ymhlith yr effeithiau niweidiol bydd: colli llwybrau; llwybrau'n gwyro i ffwrdd o'r morweddau sy'n sail i'r hyn mae LIAC yn ei gynnig (yn wahanol i awdurdodau eraill, sy'n ceisio cyfoethogi eu harlwy o forweddau); dirywiad sylweddol yn yr amgylchedd, effeithiau ar arlwy weledol LIAC o amgylch Gogledd Ynys Môn; mwy o lygredd sŵn, gweledol, gwastraff a llwch. Hefyd efallai y bydd llygredd dŵr a lleihad mewn dŵr daear yn niweidio'r amgylchedd, cyrsiau dŵr cyfagos a bywyd gwyllt.
- 1.5.12 Mae Gorsaf Bŵer Niwclear bresennol Magox Wylfa eisoes yn dylanwadu'n weledol yn ddramatig ar yr AHNE. Bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol, tra bydd Wylfa Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn gwaethygu'r ymwithiad gweledig dramatig hwn.
- 1.5.13 Bydd datblygu'r morglawdd, Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) a'r gwaith carthu morol yn effeithio ar arfordir yr ardal a'r AHNE. Bydd rhyddhau dŵr oer hefyd yn effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Bydd hyn yn arwain at ddiraddio'r dirwedd yn ogystal â thanseilio'r union rinweddau hynny sy'n allweddol i apêl twristiaeth unigryw Ynys Môn. Ceir cytundeb rhwng CSYM a Horizon y bydd hyn yn arwain at ymwithiad gweledol sylweddol o ran y dirwedd, ac ni fydd dyfeisiau adeiladu yn lleddfu hyn.
- 1.5.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tanlinellu statws cyfartal Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd o ran tirwedd a harddwch golygfeydd, gan amlygu sut y dylai penderfyniadau roi pwys mawr ar warchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn.⁵¹ Mae'r rhain yn berthnasol i weithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn, p'un a ydynt yn yr ardal ddynodedig neu'r tu allan iddi.⁵²
- 1.5.15 Mae CSYM wedi cadarnhau bod angen cynnal mynediad i'r cyhoedd trwy bob cam o ddatblygiad Wylfa Newydd. Nid yw'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn cynnwys asesiad manwl o ran hyn.
- 1.5.16 Nodwyd sawl effaith andwyol o bwys, rhai ohonynt ni ellir eu dadwneud. Bydd rhan o LIAC yn cael ei dargyfeirio i ganol y tir, gan ychwanegu 4km at y llwybr, a gaiff ei 'wasgu' rhwng yr A5025 a ffens ffin y safle. Bydd rhwystro, gwyro, cau, ail-alinio a

⁵⁰ Llythyr o CSYM i Horizon, Adolygiad o Gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu Horizon (Twristiaeth). (Atodiad 5E)

⁵¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011. Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd yng Nghymru, ([Dolen](#))

⁵² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011. Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd yng Nghymru, ([Dolen](#))

tharfu ar LIAC yn **barhaol** (yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu) yn cael effaith ganlyniadol negyddol ar y diwydiant twristiaeth, gan leihau pa mor ddeniadol mae'r llwybr, wrth darfu ar ei gynnig a gwerth hamdden. Ni ellir osgoi'r effaith hon ac me angen digolledu trwy'r Gronfa Dwristiaeth.

- 1.5.17 Wrth drin y WCP fel un derbynnydd yn yr Asesiad Gweledol a Thirwedd sy'n cefnogi'r cais, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng yr effeithiau ar wahanol adrannau o'r llwybr. Nid yw'r dull hon o weithredu yn caniatáu ar gyfer datblygu cynigion lliniaru sy'n benodol i leoliadau, na chytuno arnynt. O ganlyniad, mae effeithiau'n cael eu cyfartaleddu dros ardal rhy eang ac yn cael eu tan-asesu'n sylweddol ar y darnau o'r llwybr ger safle Wylfa Newydd. y Hefyd, asesir effeithiau gweledol cyfnod adeiladu sylweddol ym mhob un o'r 11 safbwynt wedi'u lleoli ar LIAC ond nid ydynt wedi'u cynrychioli mewn cyfosodiadau i ddangos yr effaith andwyol sylweddol yn ystod y cam hwn. Ar hyn o bryd, caiff ffoto-cyfosodiadau eu paratoi ar gyfer y cam gweithredol yn unig pan asesir effeithiau gweledol gweithredol sylweddol yn naw safbwynt wedi'u lleoli ar LIAC.
- 1.5.18 Mae angen ystyriaeth bellach o effaith cau Ffordd Cemlyn hardd yn barhaol ar y Llwybr Copr (rhan o Llwybr 566 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol), o ddechrau'r cyfnod adeiladu. Mae awgrym Horizon bod 500 o daflenni ychwanegol i roi gwybod i bobl am y cau hwn fel mesur lliniaru yn annigonol ac yn annerbyniol.
- 1.5.19 Bydd yr effeithiau gweledol yn effeithio ar ymwelwyr a beicwyr sy'n defnyddio Llwybr Copr/Llwybr 566 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol unwaith y bydd Wylfa Newydd yn weithredol. Ni fydd y cynllun lliw naturiolaid arfaethedig ar gyfer y safle yn ddigon i leihau'r effeithiau gweledol hyn. Mae'r safbwyntiau a ddewiswyd yn tanamcangyfrif effeithiau gwyrriad parhaol y Llwybr Copr ar dderbynnyddion hamdden. Caiff effeithiau gweledol andwyol sylweddol eu cynnal ar hyd y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r adran sy'n cael ei gwro'n barhaol, yr adran i'r gorllewin o Ardal Datblygu Wylfa Newydd (WNDA) a'r adrannau uwch o amgylch Mynydd y garn. Mae angen mesurau lliniaru a digolledu a dylent gynnwys: gwell arwyddion; cyllid ychwanegol i hyrwyddo'r Llwybr Beicio; hyrwyddo rhyng-gysylltiadau ag atyniadau cyfagos eraill (busnesau, cyfleusterau a gwasanaethau); a gwelliannau i'r llwybr amgen a gynigir i'w wneud yn fwy deniadol i ymwelwyr trwy well tirlunio a phlannu ychwanegol.
- 1.5.20 Yn ogystal, nodwyd sawl effaith andwyol sylweddol barhaol a dros dro mewn perthynas â'r HTCau o fewn ADWN a lleoliadau cysylltiedig ar gyfer datblygu safleoedd. Yn ystod y cyfnod adeiladu degawd o hyd, bydd pob un o'r 32 HTC yn ADWN yn cael eu cau'n barhaol i alluogi'r gwaith adeiladu. Mae CSYM yn derbyn hyn am resymau diogelwch. Mae bwriad Horizon yw creu HTCau newydd ar ôl y gwaith adeiladu, a fyddai'n cysylltu â'r llwybr arfordirol, yn brin o fanylion ac yn annigonol fel mesur digolledu neu liniaru. Gallai hyn fod 10-15 mlynedd i ffwrdd, sy'n annerbyniol, ac mae CSYM angen ei ddigolledu am y golled hon er mwyn gwella HTCau sy'n ddewisiadau amgen i liniaru'r effaith hon.
- 1.5.21 Bydd Wylfa Newydd yn cael **effaith negyddol** ar LIAC, AHNE a HTCau a bydd yn arwain at leihad cronol o ran cynnig twristiaeth a hamdden yr Ynys, gan leihau ei llonyddwch a'r hyn mae brand Ynys Môn yn ei gynnig. Llonyddwch yw priodoledd cadarnhaol mwyaf arwyddocaol lleoliadau naturiol, a dyma un o

swyddogaethau tirlun (cyd-destun/lleoliad gweledol) a seinlun (cyd-destun/lleoliad clywedol). Mae'n hanfodol i brofiad yr ymwelydd ac mae ganddo fuddion clir o ran yr economi (twristiaeth) ac iechyd a lles (adferfol).⁵³ Mae'n anochel y bydd llonyddwch amgylcheddau twristiaeth naturiol Ynys Môn yn cael ei beryglu yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu. Dylai'r Gronfa Dwristiaeth fod yn allweddol i liniaru'r heriau hirdymor hyn i'r brand, ond cred CSYM nad yw ei chwmpas a'i maint yn ddigonol i hyn ddigwydd.

Dadleoliad mewn Cadwyni Cyflenwi a Staff Lleol

1.5.22 Mae effeithiau andwyol 'trosiant' llafur yn peri pryder oherwydd y bydd Wylfa Newydd yn effeithio ar fusnes twristiaeth, a allai gael trafferth wrth recriwtio a chadw staff, yn enwedig mewn rolau arlwygo a gwasanaethau domestig.⁵⁴ Mae gan Ynys Môn lefelau isel o ddynamiaeth a throsiant busnes, dyma un o nodweddion y nifer fawr o fusnesau ffordd-o-fyw y mae economïau twristiaeth wledig yn eu denu. O ganlyniad, mae'n dangos lefelau isel o wydnwch i effaith economaidd andwyol a bydd busnesau twristiaeth yn cael trafferth i ailosod gweithlu ffyddlon a phrofiadol. Mae profiad Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd eraill yn arddangos dadleoli staff mewn marchnadoedd llafur lleol. Recriwtiodd Sizewell B 600 o weithwyr y flwyddyn o gyflogwyr lleol eraill ac roedd oddeutu 60% o'i gweithlu wedi bod mewn cyflogaeth leol yn syth cyn ei hadeiladu.⁵⁵

1.5.23 Mae'r profiad hwn yn arddangos effaith glir a pharhaus ar lefelau trosiant cyflogaeth mewn busnesau sydd eisoes yn bodoli, sydd hefyd yn cyfrannu at chwyddiant cyflogaeth yn yr ardal leol. Mae tystiolaeth Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd eraill yn dangos y bydd eu cyflogau uwch yn denu gweithwyr oddi wrth gyflogwyr lleol ac y bydd anawsterau o ran recriwtio a chadw staff a chwyddiant cyflogau. Bydd campws gweithwyr Horizon yn amsugno gweithwyr lletygarwch lleol ac yn gwaethygu'r prinder presennol o ran, er enghraifft, staff arlwygo a phen cogyddion cymwys yng Ngogledd Cymru. At hynny, oherwydd bod gan Ynys Môn farchnad lafur 'dynn' (â llafurlu bach a lefelau isel o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd) caiff yr effeithiau hyn eu chwyddo.⁵⁶

1.5.24 Mewn marchnad lafur gyfyngedig fel Ynys Môn, bydd hyn yn effeithio ar allu darparwyr twristiaeth i gadw staff ac, o ganlyniad, ar eu gallu i ddarparu profiadau o safon uchel i ymwelwyr mewn sectorau allweddol fel bwyd, arlwygo, lletygarwch a gweinyddu. I wneud yn iawn am golli staff profiadol, bydd angen buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant a'u hymestyn. Heb gronfa o lafur cymwys, y gall y sector twristiaeth fanteisio arni, bydd cynnig twristiaeth o ansawdd presennol Ynys Môn o dan fygythiad yn ystod gwaith adeiladu Wylfa Newydd.

1.5.25 Bydd sgiliau a safonau yn gostwng oherwydd dadleoliad staff. Cydnabyddir yr angen i gefnogi busnesau lleol a chynyddu'r gronfa o dalent sydd ar gael yng

⁵³ Watts, G. a Pheasant, R. 2013. Factors affecting tranquility in the countryside, *Applied Acoustics*, 74 (9), pp.1094-1103; Merchan, C.I., Diaz-Balteiro, L. and Soliño, M. 2014. Noise pollution in national parks: Soundscape and economic valuation, *Landscape and Urban Planning*, 123, t.1-9.

⁵⁴ Examination Library APP-[088].

⁵⁵ EDF 2016. Consultation Document Sizewell C: para 8:12:54. ([Dolen](#))

⁵⁶ Gweler Pennod Cyflogaeth Leol yr Adroddiad ar yr Effaith Leol i gael mwy o fanylion.

Nghanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd CSYM.⁵⁷ Mae Canolfan Sgiliau Lletygarwch ac Arlwy, mewn partneriaeth â darparwyr addysg trydyddol, yn allweddol i gyflawni hyn. Sicrhawyd bod cyllid ar gyfer cyfleuster o'r fath ar gael o Gronfa Effaith Gymunedol EDF i gefnogi hyfforddiant ym Minehead (£500k+) ac mae'n bwysicach fyth i Ynys Môn.⁵⁸

1.5.26 Gallai dadleoli tebyg yn y gadwyn gyflenwi wanhau'r cysylltiadau rhwng y sector twristiaeth a chynhyrchwyr lleol ar Ynys Môn, gan danseilio'r cynnig a'r gefnogaeth unigryw ar gyfer ffermio, pysgota a chynhyrchwyr crefftau lleol, sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi'i ddatblygu ymhellach gan Strategaeth Twristiaeth Bwyd Ynys Môn.⁵⁹

1.5.27 Mae Horizon yn dwyn sylw at y strategaeth swyddi a sgiliau a'r siarter cadwyn gyflenwi fel lliniaru ymarfer da. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar reoli prosiect mecanyddol, peirianeg, adeiladu a dadgomisiynu a pheirianeg drydanol i ateb galwadau'r prosiect. Nid yw'n ystyried effaith Wylfa Newydd ar yr economi ehangach (twristiaeth, lletygarwch, arlwy a hamdden), y mae'n rhaid ei diogelu drwy gydol y cam adeiladu. Dim ond yn gryno y cyfeirir at faterion yn ymwneud â throsiant llafur.⁶⁰ Mae tystiolaeth CSYM yn dangos y bydd **effaith negyddol** ar y sectorau twristiaeth ac ansawdd y cynnig twristiaeth, os caiff staff eu 'potsio' i bob pwrpas i weithio yn Wylfa. Er mwyn niwtraleiddio'r effaith hon, mae angen buddsoddi mewn addysg, sgiliau a hyfforddiant ar draws pob sector (yn enwedig arlwy a lletygarwch yn yr achos hwn) er mwyn sicrhau bod y gronfa lafur leol yn ddigonol i alluogi llenwi staff hyfforddedig a phrofiadol i lenwi swyddi gwag sydd wedi'u dadleoli. Bydd hyn yn sicrhau bod y sector twristiaeth yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n hollbwysig i gynnig twristiaeth Ynys Môn.

Ymddygiad Ymwelwyr ac Ymweliadau

1.5.28 Mae Horizon yn defnyddio darganfyddiadau Arolwg Ymddygiad Ymwelwyr Ynys Môn 2015 i ddadlau na fyddai datblygiad a gweithrediad Wylfa Newydd yn cael effaith ddifrifol ar ymddygiad ymwelwyr na chyfraddau ymwelwyr, gan gyfeirio at yr effeithiau hyn fel rhai mân andwyol a thrwy hynny heb fod yn rhai sylweddol.⁶¹ Mae hyn yn bychanu'r golled hon o 10% yn nifer yr ymwelwyr a'r golled gysylltiedig mewn gwariant gan ymwelwyr – oddeutu £30m y flwyddyn - (nid yw Horizon yn cyfeirio at hyn). Fel y trafodwyd uchod, mae Arolwg 2018 yn dynodi bod y ffigwr hwn yn amcangyfrif rhy isel.

1.5.29 Mae ymchwil yn arddangos bod twristiaeth arfordirol ac economïau hamdden wedi'u seilio ar ansawdd yr adnoddau a'r lleoliad naturiol, canfyddiad cyhoeddus yr ardal a'i hadnoddau a'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar yr adnoddau hyn. Yn hollol glir, 'Bydd cyfyngu ar fynediad at yr adnoddau naturiol sy'n denu

⁵⁷ Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd CSYM 2018. T65. ([Dolen](#))

⁵⁸ Cronfeydd Lliniaru Effaith Gymunedol, HPC ([Dolen](#))

⁵⁹ CSYM 2014, Strategaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd i Ynys Môn. ([Dolen](#))

⁶⁰ ARN 8.3. paragraff 3.3.4. a 2.4.2.

⁶¹ Horizon DCO C1. para 1.5.132-133 tC1-51.

twristiaid a defnyddwyr hamdden, neu eu diraddio, yn arwain at effeithiau economaidd negyddol.⁶²

1.5.30 Bydd Wylfa Newydd yn effeithio'n negyddol ar arfordir a thraethau Gogledd Ynys Môn, sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu pellenigrwydd fel cyrchfannau twristiaeth pwysig.⁶³ Mae'n amlwg bod gweithgareddau adeiladu (gan gynnwys mwy o draffig a sŵn gan ar longau a cherbydau, a fydd yn cynyddu'n ddramatig oherwydd Wylfa Newydd) yn newid estheteg ardaloedd yr arfordir a'r môr, gan effeithio ar weithgareddau hamdden a thwristiaeth.⁶⁴ Mae'r llenyddiaeth ymchwil ryngwladol 'ar y cyfan yn dod i'r casgliad bod mater twristiaeth wedi'i rwymo'n sylfaenol at ansawdd yr amgylchedd naturiol... mae unrhyw darfu ar [hyn] yn golygu bod perygl o effaith ar dwristiaeth wledig.'⁶⁵

1.5.31 Bydd datblygiad Wylfa Newydd yn creu cryn sylw yn y cyfryngau ac mae ei faint a'i raddfa, a natur yr adroddiadau, yn golygu y gallai gyfleu argraff bod 'Ynys Môn ar gau i fusnes' ac un safle adeiladu mawr. I liniaru'r **effaith negyddol** hon, bydd angen ymgyrch farchnata ar y cyd i dawelu ofnau ymwelwyr ac adeiladu marchnadoedd newydd, gan ddilyn ymarfer da o fannau eraill.⁶⁶ Mae adran 1.6 y bennod hon yn cynnwys manylion am gynigion lliniaru.

Brand Ynys Môn, ei Henw Da a Chanfyddiadau Ymwelwyr

1.5.32 Mae cynhyrchu a thrawsyrru ynni yn fygythiadau penodol i agweddau allweddol ar apêl Ynys Môn, gan gynnwys ei hamgylchedd o ansawdd, golygfeydd eang, heddwch, llonyddwch ac ansawdd yr aer. Yn amlwg, mae hyn yn fygythiad sylweddol i'w brand yn ogystal â'i heconomi dwristiaeth; 'gyda'i brynau gwyrdd tonnog a'i dyfroedd grisial, mae Ynys Môn yn freuddwyd i'r rheiny sy'n chwilio am heddwch a llonyddwch'.⁶⁷ Bydd diwydiannu elfennau sylweddol o'i thirwedd yn peryglu hyn ac yn ei gwneud yn llai deniadol i dwristiaid. Bydd effeithiau cronol adeiladu Wylfa Newydd, a'r safleoedd datblygu cysylltiedig sy'n weladwy iawn, yn lleihau ei hapêl ac yn peryglu cynnig ei brand.

1.5.33 Gan dynnu ar sylwadau a wnaed eisoes, yn ystod y gwaith adeiladu bydd rhai ymwelwyr yn ystyried bod Ynys Môn 'ar gau i fusnes,' gan arwain at: i) leihad o ran ymwelwyr yn y tymor byr wrth iddynt gael gwyliau mewn mannau eraill; a ii) cholled tymor hir ymwelwyr dychwel/dychwelyd/aml-genhedlaeth. Efallai y bydd ymwelwyr yn ail-werthuso amgylcheddau naturiol a hanesyddol unigryw Ynys Môn, yn enwedig ei harfordiroedd naturiol, heb ei ddifetha, cyfoethog ac amrywiol (ei hasedau mwyaf o ran twristiaeth). Ceir perygl gwirioneddol y bydd effaith negyddol ar yr union lonyddwch y mae ymwelwyr yn chwilio amdano ar yr Ynys. Ceir risg i enw da'r Ynys (sy'n dibynnu ar farchnadoedd hŷn, ABC1 a theuluoedd ifanc) trwy

⁶² Atlantic Region Wind Energy Development: Recreation and Tourism Economic Baseline Data Development: Impacts of Offshore Wind on Tourism and Recreation Garcia et al 2012 BOEM.

⁶³ Peregrine Energy Group 2008 t3, ar-lein yn: [\(Dolen\)](#)

⁶⁴ Cape Wind Final Environmental Impact Statement MMS 2009. [\(Dolen\)](#)

⁶⁵ EirGrid 2015. Your Views, Your Tomorrow: t.2. [\(Dolen\)](#)

⁶⁶ HTAP Strategy, t.3 ar-lein yn: [\(Dolen\)](#)

⁶⁷ Whelan, Z. a Morris, L. 2017. 17 things you must do when you visit Anglesey, *Daily Post*, 19 Awst. [\(Dolen\)](#)

bresenoldeb nifer fawr o weithwyr adeiladu, a fydd yn arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol, puteindra a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol, oni chânt eu rheoli'n briodol.

- 1.5.34 Caiff Wylfa Newydd **effaith negyddol** ar frand Ynys Môn a mentrau strategol i ddatblygu a gwella'r Ynys fel cyrchfan twristiaeth gwerth uchel, drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys: Llwybr Arfordir Cymru, twristiaeth llonyddwch; awyr dywyll ac astro-dwristiaeth; gwyllo adar/bywyd gwylt; twristiaeth treftadaeth.
- 1.5.35 Mae Horizon yn cydnabod y gallai Wylfa Newydd gael effaith andwyol ar y brand a lleihau nifer yr ymwelwyr a'r refeniw – gallai pob un o'r rhain barhau i'r cyfnod gweithredol. Mae'n ymrwmo i gymryd camau rhagweithiol i ddiogelu brand Ynys Môn trwy Gronfa Dwristiaeth.⁶⁸ Bwriedir gweithredu'r gronfa hon yn ôl-weithredol ar hyn o bryd, gan ddibynnu ar arolygon monitro (na fyddai'n adrodd ar safbwyntiau'r rheini sy'n dewis cadw draw) i bennu unrhyw effeithiau andwyol, a fyddai wedyn yn arwain at fesurau lliniaru. Mae'r weithdrefn hon yn hirfaith ac yn adweithiol, nid yw'n ailadrodd profiad ymarfer da mewn mannau eraill ac mae'n bygwth gwaethygu materion problematig sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.⁶⁹ Ar wahân i'r datganiadau cyffredinol hyn, prin yw'r manylion ac mae'r ystyriaeth o'r effaith ar y brand yn arwynebol.⁷⁰
- 1.5.36 Mae'n hanfodol bod mesurau brand **rhagweithiol** tymor hir yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu rhag effeithiau a'u lliniaru. Mae angen i'r mesurau a'r camau diogelu brand hyn ddigwydd cyn, yn ystod ac ar ôl adeiladu Wylfa Newydd er mwyn diogelu rhag niwed hirdymor difrifol (dyma'r ymarfer sefydledig mewn Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd eraill fel HPC). Mae brandio cyrchfannau yn dangos yn glir pa mor werthfawr y mae ymgyrchoedd rhagweithiol i adeiladu presenoldeb brand cryf, a gwydnwch, i lliniaru effeithiau andwyol.⁷¹ Diogelu ac atal yw'r ymarfer marchnata mwyaf effeithiol.

Canolfannau Ymwelwyr Dros Dro a Pharhaol

- 1.5.37 Mae Horizon wedi ymrwmo i Ganolfan Ymwelwyr a Chyfyngau dros dro, a fyddai'n ychwanegiad pwysig at bortffolio atyniadau Ynys Môn. Ceir cyfeiriadau at ganolfan barhaol bum mlynedd ar ôl gorffen y gwaith adeiladu; ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu, sy'n hynod siomedig. Mae'n hanfodol adeiladu cyfleuster dros dro o ansawdd uchel i ddarparu ar gyfer twristiaeth adeiladu ac addysg. Mae hyn yn gofyn am gadarnhad oddi wrth Horizon a byddai'n adlewyrchu ymarfer da mewn Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd eraill. Byddai'n arddangos presenoldeb Horizon ar yr Ynys, a'i ymrwymiad iddi, ac yn darparu ar gyfer twristiaid a thirgolion fel ei gilydd, gan ddarparu canolfan addysgol ac addysgiadol ac adnodd delfrydol i'r rheiny sy'n cerdded ar hyd LIAC.

⁶⁸ Examination Library APP-[088] paragraffau 1.6.97 a 1.6.99.

⁶⁹ Gweler Baral, A., Baral, S. a Morgan, N. 2004. Marketing Nepal in an Uncertain Climate: Confronting Perceptions of Risk and Insecurity, *Journal of Vacation Marketing*, 10 (2): 186-192 ar gyfer enghraifft o'r heriau wrth ymateb yn ôl-weithredol i argyfyngau.

⁷⁰ Examination Library APP-[088] paragraff 1.5.98 t.C1-41.

⁷¹ Morgan, N., Pritchard, A. a Piggott, R. 2002. New Zealand, 100% Pure. The creation of a powerful destination niche brand, *Journal of Brand Management*, 9 (4-5) 335-354.

- 1.5.38 Mae Canolfan Ymwelwyr EDF yn Bridgewater eisoes wedi denu dros 80,000 o ymwelwyr ers iddi agor. Dylai'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r llwyfan gwylio arfaethedig i sicrhau profiad o ansawdd wrth ymweld ag Wylfa Newydd yn ystod y gwaith adeiladu. Byddai grwpiau allweddol o ymwelwyr â'r cyfleuster yn cynnwys: triplau ysgol, twristiaid addysg uwch/diddordeb arbennig, pobl leol ac ymwelwyr undydd.
- 1.5.39 Mae CSYM angen cael cadarnhad y bydd canolfan ymwelwyr addas ar gael drwy gydol y cyfnod adeiladu ac y bydd canolfan ymwelwyr barhaol o ansawdd uchel yn cael ei darparu yn ystod y camau gweithredu (ag ymrwymadau pendant o ran amserlenni). Dylai'r ganolfan ymwelwyr dros dro a'u un parhaol ddefnyddio cyfleusterau o'r radd flaenaf a gallent ymgysylltu pobl â storïau am ynni, carbon isel a thechnoleg niwclear. Gallai'r ganolfan barhaol hefyd adrodd stori hanes archaeolegol yr ardal leol, a ddatgelwyd yn ystod gwaith paratoi'r safle. Mae datblygu cyfleusterau o'r fath yn ymarfer sefydledig mewn Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd eraill ac mae atyniad tebyg, Mynydd Gwefru yn Ninorwig, sy'n denu 225,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, gan ddangos apêl atyniadau yn y rhanbarth sy'n gysylltiedig ag ynni.⁷²
- 1.5.40 Roedd y Ganolfan Derbyn Ymwelwyr a Chyfryngau parhaol yn rhan o PAC1 a PAC2, ond mae wedi'i dileu yn PAC3 ac nid yw'n rhan o'r Cyflwyniad Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Er bod Horizon yn gwneud ymrwymiad y bydd canolfan ymwelwyr barhaol yn cael ei darparu unwaith y bydd yr orsaf bŵer yn weithredol, nid oes gan CSYM unrhyw sicrwydd o ran hyn a heb fod yn rhan o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, nid oes gan CSYM unrhyw bwerau i sicrhau'r ymrwymadau hyn. Mae cael y ganolfan ymwelwyr hon o ansawdd uchel yn hanfodol i ddenu ymwelwyr yn ôl i Ogledd Ynys Môn yn dilyn y cyfnod adeiladu. Mae'n rhaid i'r ganolfan ymwelwyr fod yn gysylltiedig ag atyniadau cyfagos er mwyn sicrhau bod 'Gogledd Ynys Môn' yn cael ei marchnata fel cyrchfan 'y mae'n rhaid mynd yno' ar Ynys Môn. Bydd hyn yn gatalydd i drawsnewidiad cadarnhaol Cemaes ac Amlwch yn arbennig fel cyrchfannau twristiaid ffyniannus, a fyddai'n waddol positif o Wylfa Newydd.

Effeithiau Cronnol

- 1.5.41 Mae'n rhaid ystyried prosiect o'r maint a'r raddfa hon mewn ffordd holistaidd. Mae miloedd o effeithiau unigol, ar draws ystod eang o ddangosyddion, llawer ohonynt yn arddangos effeithiau andwyol mân, canolig neu fawr yn unigol. Yn gronnol, fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn yn cael eu dwysau'n sylweddol. Bydd unrhyw effeithiau canfyddedig a digwyddiadau a phrofiadau yr adroddwyd arnynt yn niweidio brand Ynys Môn, sydd wedi gwneud cymaint yn ddiweddar i ehangu ar ei henw da trwy fuddsoddi'n sylweddol yn LIAC, datblygu Ynys Môn fel cyrchfan twristiaeth bwyd o safon a'i hymddangosiad fel cyrchfan Awyr Dywyll. Bydd yr effeithiau cronol hyn:
- a) Yn lleihau gwariant ymwelwyr yn yr economi dwristiaeth leol (llety, atyniadau, bwyd a diod, sector greadigol, ac ati);
 - b) Yn effeithio ar ansawdd y profiad gwyliau gan gynnwys pryderon am ddiogelwch a defnydd contractwyr o lety teuluol;

⁷² Gwefan Mynydd Gwefru ([Dolen](#))

- c) Effeithiau cronol Wylfa Newydd, ynghyd â safleoedd datblygu cysylltiedig gweladwy iawn (e.e. canolfannau logisteg, parcio a theithio, MOLF, ac adeiladu priffyrdd) yn lleihau apêl a natur ddeniadol yr amgylchedd.

- 1.5.42 Mae Horizon yn adrodd ar Arolwg Ymwelwyr 2015, sy'n dangos bod 90% o ymwelwyr wedi nodi na fyddai Wylfa Newydd yn effeithio ar eu penderfyniad i ymweld. Fodd bynnag, byddai colli 10% o'r ymwelwyr o economi dwristiaeth Ynys Môn hyd yn oed, sy'n werth £300m+ ar hyn o bryd, yn arwain at golled flynyddol o £30m. Mae hyn yn fwy o lawer na'r ychwanegiad o £10m (sy'n tybio y byddai pob peth arall yn aros yn gyfartal), y byddai yn ei gyfrannu am gyfnod defnydd brig o 3 ½ blynedd yn ystod y cyfnod adeiladu brig.
- 1.5.43 Mae gweithwyr yn defnyddio llety twristiaeth eisoes wedi cael ei fynegi, ond dylid nodi y bydd hyn hefyd yn tanseilio'n uniongyrchol y polisi/strategaeth y mae CC/LIC a CSYM wedi'i ddatgan i ddatblygu twristiaeth yn ddiwydiant o ansawdd drwy gydol y flwyddyn. Mae'n amlwg y byddai hyn yn anafanteisiol i Ynys Môn o ran cystadleuwyr fel Ardal y Llynnoedd a Chernyw.
- 1.5.44 Mae Wylfa Newydd yn brosiect hirdymor a fydd yn cymryd o leiaf 10 mlynedd i'w gwblhau, er bod prosiectau tebyg wedi gor-redeg yn sylweddol ac wedi bod angen llawer mwy o lafur na'r hyn a amcangyfrifwyd i ddechrau.⁷³ Bydd ei faint a'i hyd yn chwyddo'r effeithiau andwyol, sy'n gronnol yn hytrach nag unigol/neilltuol. Mae ymchwil y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn dangos, er bod twristiaeth yn fwy gwydn na rhai sectorau eraill i ddirywiad economaidd (gan ddewis cynyddu cynhyrchiant neu leihau oriau yn hytrach na diswyddo staff), 'po hwyaf y mae'r argyfwng yn para, neu po arafaf y mae'r diwydiant yn adfer, y mwyaf o swyddi fydd yn cael eu colli'n anadferadwy.'⁷⁴
- 1.5.45 Byddai colli 10% o ymwelwyr (y mae Horizon yn ei gydnabod) yn golygu colled flynyddol o £30m o leiaf i'r Ynys - ond byddai effeithiau cronol hyn yn waeth. Gan gymryd y ffigwr a dderbynnir yn gyffredinol o £54,000 o wariant ymwelwyr i greu un swydd dwristiaidd⁷⁵ (er bod Horizon yn defnyddio £22,000 i asesu effaith swydd), byddai'r dirywiad hwn yn bygwth 550 o swyddi yn y sector yn flynyddol.
- 1.5.46 Mae Arolwg Ymwelwyr Ynys Môn 2018 yn peintio darlun pryderus. Bydd y cyfnod adeiladu yn rhoi cryn straen ar yr economi ymwelwyr trwy gynydd mewn traffig, datblygiadau o ran seilwaith a mwy o lygredd sŵn, gweledol a llwch ac aflonyddwch. Mae ffyrdd yn dominyddu teithio i Ynys Môn ac nid oes llawer o le i newid hyn. Mae nifer o arolygon yn dynodi bod goddefiant twristiaid o amseroedd teithio hwy yn gyfyngedig, â bron chwarter (23%) yr ymwelwyr yn llai tebygol o ymweld o dan yr amgylchiadau hyn.⁷⁶ Bydd tagfeydd gwirioneddol neu ganfyddedig yn arwain at golli ymwelwyr.

⁷³ Hay, A., Meredith, K. a Vickerman, R. 2004. The Impact of the Channel Tunnel on Kent and Relationships with Nord-Pas de Calais. Final Report by Centre for European, Regional and Transport Economics, University of Kent, [Ar-lein].

⁷⁴ Belau, D. 2003. *The Impact of the 2001-2002 Crisis on the Hotel and Tourism Industry*. Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, Geneva.

⁷⁵ Oxford Economics, 2013, *Tourism Jobs and Growth*, Visit Britain. ([Dolen](#))

⁷⁶ South West Research Company, 2011. Arolwg Ymwelwyr. ([Dolen](#))

1.5.47 Dywed oddeutu un o bob chwech o'r rheiny sy'n aros mewn gwestai neu fythynnod hunanarlwyo (16%) y bydd y cynnydd mewn traffig yn golygu y byddant yn llai tebygol o ymweld ag Ynys Môn. Mae hyn yn dynodi colledion llawer mwy, yn enwedig yn y sector gwariant uwch hwn ac nid ydynt yn adlewyrchu effeithiau Wylfa Newydd ar dwf yr Ynys fel cyrchfan drwy gydol y flwyddyn. Mae tablau 5 a 6 yn rhoi dadansoddiad manwl o'r colledion amcangyfrifedig, gan fodelu colled o 16% o ran llety twristiaeth a cholled o 13% o ran ymwelwyr sy'n aros â ffrindiau a pherthnasau (SFR) ac ymwelwyr undydd. Mae'r tablau hyn yn dangos colled gyffredinol o £49.26m mewn gwariant ymwelwyr a cholled 410,000 o ymwelwyr. Yn allweddol, nid yw'r colledion hyn yn ystyried yr effeithiau sylweddol a fyddai'n digwydd pe bai cyfran o'r stoc llety twristiaeth yn trosglwyddo i'r sector rhentu preifat.

Tabl 5: Dadansoddiad Effaith Sectoraidd 2017 – Ymwelydd (£m)

	Cyfanswm (£m)	-1/6 th	Cyfanswm wedi'i Addasu (£m)
Llety â Gwasanaeth	44.06	7.343	36.7
Llety Heb Wasanaeth	220.46	36.74	183.72
Cyfanswm y Gwerth	264.52	44.1	220.42
	Cyfanswm (£m)	-13%	Cyfanswm wedi'i Addasu (£m)
Cyfanswm y Gwerth SFR	8.43	1.095	7.33
	Cyfanswm (£m)	-13%	Cyfanswm wedi'i Addasu (£m)
Ymwelwyr Undydd	31.28	4.066	27.214

Cyfanswm colledion o £49.26m

Tabl 6: Dadansoddiad Effaith Sectoraidd – Nifer yr Ymwelwyr

Ymwelwyr sy'n Aros Dros Nos	Nifer Ymwelwyr (000s) yr	-1/6 th	Cyfanswm wedi'i Addasu (000s)
Llety â Gwasanaeth	214.26	35.71	178.55
Llety Heb Wasanaeth	705.71	117.62	588.09
Cyfanswm y Gwerth	919.97	153.33	766.64
	Nifer Ymwelwyr (000s) yr	-13%	Cyfanswm wedi'i Addasu (000s)
Cyfanswm y Gwerth SFR	107.68	140	93.68
	Nifer Ymwelwyr (000s) yr	-13%	Cyfanswm wedi'i Addasu (000s)
Ymwelwyr Undydd	683.87	88.9	594.9

Colli 410k o ymwelwyr.

- 1.5.48 Mae'r arolygon hyn yn dangos, wrth i'r prosiect agosáu, bod cyfran o bobl y bydd y broses adeiladu yn eu rhwystro. O ystyried marchnad ymwelwyr Ynys Môn, ei chyfryngau a rennir, a'r ffaith y bydd straeon Wylfa Newydd yn cynyddu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, bydd hyn yn achosi i fwy o bobl ailystyried eu dewisiadau gwyliau. Byddai amcangyfrif ceidwadol o golled ymwelwyr o 16%, neu un chweched, yn ystod y gwaith adeiladu yn creu colledion o £50m o economi twristiaeth yr Ynys. Bydd y blynyddoedd o waith adeiladu ffyrdd i hwyluso mynediad at Wylfa Newydd yn gwaethygu hyn. Er y bydd cyfyngiad amser ar y gwaith ffordd hwn, ar ôl i gyrchfan golli ymwelwyr, maent yn llawer llai tebygol o ddychwelyd.
- 1.5.49 Nid yw'r senarios hyn yn rhoi unrhyw sylw i ddifrod Wylfa Newydd i frand Ynys Môn, diraddio ei LIAC a'i harfordir, ei llonyddwch, ei thirwedd, ei diwylliant a'i fywyd gwyllt. Mae Horizon wedi ymrwymo i ddiogelu brand Ynys Môn yn rhagweithiol, er bod y manylion yn gyfyngedig. Mae diogelu'r brand yn hanfodol i frwydro yn erbyn y newidiadau corfforol a chanfyddiadol, canfyddiadau negyddol ehangach cynnal safle niwclear a'r tagfeydd traffig go iawn neu'r rhai canfyddedig. Ar yr un pryd, bydd costau dadleoli staff ac ymwelwyr, trosiant llafur a'r amhariad i rwydweithiau cyflenwi lleol ar gyfer y diwydiant yn rhoi mwy o effeithiau cronolol a straen ar y sector twristiaeth. Efallai na fydd y straeniau hyn yn amlwg mewn arolygon ymwelwyr, ond bydd eu canlyniadau'n cael effaith enfawr ar ansawdd a phroffidioldeb y sector twristiaeth. Heb ymyrraeth, bydd yr effeithiau hyn yn arwain at ddirywiad mewn ansawdd a 'chylch dieflig' o ddirywiad a cholli swyddi neu 'ras i'r gwaelod.'
- 1.5.50 Ceir effeithiau cronolol hefyd â phrosiectau mawr eraill (e.e. Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol, pentref gwyliau Bluestone, y 'drydded groesfan' ac ati) y mae pob un ohonynt yn debygol o gael eu hadeiladu ar yr un pryd â Wylfa Newydd. Gyda'i gilydd, gallai hyn fod yn niweidiol iawn i sector twristiaeth Ynys Môn (h.y. llety, brand, canfyddiad, tagfeydd traffig ac ati) ac mae angen rheoli, monitro a lliniaru gofalus lle bo'n ofynnol.

1.6 ac Rhwymedigaethau a Gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu

- 1.6.1 Yn amlwg, ceir sawl effaith sylweddol a fydd yn effeithio'n andwyol ar sector twristiaeth yr Ynys - fel y mae enghreifftiau Rhaglenni Cenedlaethol Gwella Gorsafoedd eraill yn dangos . Mae gofyniad clir, yn seiliedig ar dystiolaeth, am becyn lliniaru sy'n gysylltiedig â thwristiaeth i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol ar y sector yn cael eu lleihau. Mae cyfansoddiad economi Ynys Môn, ei dibyniaeth allweddol ar y sector twristiaeth a'i pherifferoldeb daearyddol yn tanlinellu'r angen i gytuno ar y rhaglen liniaru hon cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod adeiladu, gan barhau i mewn i'r cyfnod gweithredu.
- 1.6.2 Ni ddylid mabwysiadu dull 'monitro, rheoli a lliniaru' o dan unrhyw amgylchiadau. Mae gwaith adeiladu brand a chyfyngu ar ddifrod effeithiol o fewn twristiaeth yn seiliedig ar weithredu cynnar a pharhaus i fynd i'r afael â materion a allai fod yn broblemus.⁷⁷ Yn y ffordd hon, mae'r gyrchfan yn llawer

⁷⁷ Morgan, N., Pritchard, A. a Pride, R. 2012. *Destination Brands: Managing Place Reputation*, Elsevier: Oxford.

mwyr galluog i reoli materion mewn modd llawer mwy cost-effeithiol; mae camau ôl-weithredol yn ddrutach o lawer ac yn llawer llai effeithiol.

- 1.6.3 Mae pecynnau lliniaru cymharol yn dangos digolledu sylweddol i'r cymunedau sy'n lletya, gan adlewyrchu'r ymrwymiad dim-coll-net.⁷⁸ Er enghraifft, mae Asiantaeth Siapan ar gyfer Ynni ac Adnoddau Naturiol wedi efelychu gwerth cymorthdaliadau digolledu i gymunedau lleol sy'n lletya adweithydd niwclear. Rhoddodd y rhain gyfanswm o 44.9 miliwn yen (£301,891,498) yn ystod y cyfnod paratoi ac adeiladu 10 mlynedd, â 76.6 biliwn yen arall i'w dalu fel iawndal lliniaru dros y gweithrediad 35 mlynedd (£515,630,930).⁷⁹ Cyfartaledd yr iawndal gan gwmnïau cyfleustodau oedd £89m y safle (gwerth £103m ar brisiau 2017).⁸⁰ Yn y DU, mae EDF eisoes wedi ymrwymo i becyn ariannol lliniaru gwerth £100m i Wlad yr Haf ar gyfer HPC (yn cynnwys gwaith paratoi safle'r cytundeb a.106). Fel rhan o hyn, sicrhawyd bod arian sylweddol ar gael i gefnogi'r sector twristiaeth. Mae llawer o'r arian hwn trwy Gronfa Dwristiaeth benodedig, sy'n cefnogi Partneriaeth Gweithredu ar Dwristiaeth Hinkley (HTAP). Mae hyn yn golygu 'y bydd cyfanswm o £1.12m o gyfraniadau twristiaeth yn cael ei ddarparu yn flynyddol wedi'i rannu dros gyfnod o chwe blynedd.⁸¹ Darperir arian ar gyfer swyddi swyddogion twristiaeth (4/5 o swyddi) a chanolfannau croeso (7) hefyd. Mae symiau sylweddol hefyd wedi'u tynnu i lawr o'r Gronfa Lliniaru Effaith ar y Gymuned (Cronfa CIM), â £2.4m wedi'i sicrhau hyd yma. Mae £1.1m pellach wedi cefnogi'r seilwaith twristiaeth (gan gynnwys gwelliannau treftadaeth, tirwedd a HTCau). Yn arwyddocaol, mae'r cronfeydd hyn wedi llwyddo i ddenu arian cyfatebol o ffynonellau eraill.⁸² Mae'n werth nodi mai llety a bwyd yw sector mwyaf arwyddocaol Gwlad yr Haf ond pedwar (ymhell y tu ôl i ieuchyd, gweithgynhyrchu, manwerthu ac addysg), ond twristiaeth yw'r sector pwysicaf ar Ynys Môn.
- 1.6.4 Croesewir derbyniad Horizon i greu Cronfa Dwristiaeth⁸³ ac mae'n dilyn ymarfer sefydledig mewn mannau eraill a bydd yn hanfodol i ddiogelu brand Ynys Môn a'r diwydiant twristiaeth y mae'n ei gefnogi. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd twristiaeth i'r Ynys a chytundeb cyffredinol bod twristiaeth yn 'hanfodol i economi Ynys Môn'.⁸⁴ Caiff hyn ei sicrhau trwy rwymedigaethau cynllunio a fydd yn 'ceisio sicrhau y gellir cymedroli'r effeithiau canfyddedig ar y sector twristiaeth lleol gan ddefnyddio mecanweithiau cadarnhaol i ddatblygu mathau o dwristiaeth sydd eisoes yn bodoli a ffurfiau newydd o dwristiaeth.⁸⁵ Mae croeso i'r ymrwymiad hwn i ddatblygu ffurfiau newydd o gynnyrch a phrofiadau twristiaeth. Fodd bynnag, nid yw gwerth y gronfa hon yn adlewyrchu

⁷⁸ Kerr, S., Johnson, K. a Weir, S. 2017. 'Understanding Community Benefit Payments from Renewable Energy Development' *Energy Policy* June Vol 105 t.202-211.

⁷⁹ Kato, T., Takahara, S., Nishikawa, M. a Homma, T. 2013. 'A Case study of economic incentives and local citizens attitudes towards hosting a nuclear power plant in Japan: Impacts of the Fukushima accident' *Energy Policy* 59, t. 808-818, ar-lein yn: [\(Dolen\)](#)

⁸⁰ Kato, T., Takahara, S., Nishikawa, M. a Homma, T. 2013. 'A Case study of economic incentives and local citizens attitudes towards hosting a nuclear power plant in Japan: Impacts of the Fukushima accident' *Energy Policy* 59, t. 808-818, ar-lein yn: [\(Dolen\)](#)

⁸¹ HTAP Strategy, t.3 ar-lein yn: [\(Dolen\)](#)

⁸² HTAP Strategy, t.3 ar-lein yn: [\(Dolen\)](#)

⁸³ Examination Library APP-[088]

⁸⁴ Examination Library APP-[088]

⁸⁵ Examination Library APP-[088]

pwysigrwydd y sector twristiaeth i Ynys Môn, a maint yr effeithiau y caiff Wylfa newydd ar y sector allweddol hwn.

- 1.6.5 Disgwylir y byddai'r Gronfa hon yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r hyn y cytunwyd arno ar gyfer y HTAP, wedi'i ategu gan ymrwymiad i wella, diogelu ac atal, yn hytrach na monitro a lliniaru, a byddai egwyddorion ymarfer da'r Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd hon a rhai tebyg yn ei llywio, gan gynnwys:
- a) Meithrin canfyddiadau ac ymwybyddiaeth gadarnhaol;
 - b) Ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
 - c) Creu profiad teithio sy'n groesawgar a gwybodus;
 - d) Monitro effeithiau ar ymwelwyr a busnesau;
 - e) Datblygu cynhyrchion newydd ar gyfer anghenion cwsmeriaid sy'n newid;
 - f) Manteisio ar bartneriaethau a thueddiadau digidol;
 - g) Meithrin gallu'r diwydiant i ymdopi yn y tymor hir;
 - h) Annog twf gwerth uchel, parhaus;
 - i) Cefnogi gweithredu a natur unigryw yn ardal leol.

Gofyniad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu

- 1.6.6 Yn adran 9.2 Strategaeth Llety Gweithlu Horizon (APP-412) maent yn amlinellu eu dull o ymdrin â rheoli effaith gweithwyr adeiladu ar lety lleol trwy weithredu Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithlu (WAMS). Mewn egwyddor, mae CSYM yn gwbl gefnogol i'r WAMS ac mae wedi bod yn trafod â Horizon dros nifer o flynyddoedd ynglŷn â sut y gallai'r gwasanaeth hwn weithredu. Fodd bynnag, mae gan CSYM bryderon nad yw'r defnydd o'r WAMS hwn yn orfodol ar gyfer gweithwyr, a gallai gweithwyr ddewis peidio â defnyddio'r WAMS. Gall hyn achosi anhawster wrth fonitro a rheoli effeithiau (yn enwedig ar y sector twristiaeth a charafanau) a bydd bron yn amhosibl i CSYM gymryd camau gorfodi lle bo angen (e.e. defnyddio safleoedd carafanau drwy gydol y flwyddyn, trosi llety twristiaeth i lety drwy gydol y flwyddyn ac ati).
- 1.6.7 Er bod CSYM yn cydnabod yn llawn, ac yn gwerthfawrogi, rhyddid y gweithwyr i ddewis ble maent yn dymuno byw, mae hyn, serch hynny, yn gwneud lliniaru effeithiau ar sectorau neu leoliadau llety penodol yn anodd. Mae CSYM yn dymuno gweithio â Horizon i sicrhau bod y WAMS mor llwyddiannus â phosibl. Felly mae CSYM yn ceisio Gofyniad Gorchymyn Caniatâd Datblygu bod Horizon yn cyflwyno manylion y WAMS i CSYM i gytuno arno cyn ei roi ar waith. Bydd CSYM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddogion yn monitro'r effeithiau ar y sector twristiaeth ac yn cymryd camau gorfodi lle y bo angen. Manylir ar hyn yn y bennod am dai yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol hwn er mwyn osgoi dyblygu.
- 1.6.8 Fodd bynnag, mae anallu Horizon i orfodi gweithwyr i ddefnyddio'r WAMS yn parhau i beri pryder. Mae hyn yn rhoi cyfiawnhad sylweddol ynddo'i hun dros Rwymedigaethau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu i hyrwyddo a marchnata twristiaeth ar Ynys Môn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod 'ar agor ar gyfer busnes'. Mae angen cronfa sylweddol wrth gefn hefyd (Cronfa Gydnerthedd Gymunedol) i fynd i'r afael ag effeithiau anhysbys, anfesuradwy a allai godi trwy fonitro.

Rhwymedigaethau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu

1.6.9 Mae'r adran hon yn manylu ar becyn o fesurau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r effeithiau andwyol a drafodir yma. Bydd y mesurau hyn yn cwmpasu cyfnod adeiladu a chyfnod gweithredu cynnar y prosiect. Dylai pob mesur fod yn gysylltiedig â mynegai a pherthyn i Gronfa Dwristiaeth. Mae Horizon wedi ymrwymo i Gronfa Dwristiaeth a mesurau i amddiffyn i diwydiant twristiaeth. Fodd bynnag, mae llawer o'r mesurau lliniaru yn dod ar ffurf 'lliniaru corfforedig' ac mae'r dull monitro a lliniaru y mae Horizon yn ei ffafrio yn annerbyniol.

Rhwymedigaethau Arfaethedig y Cyngor

1.6.10 Isod rhestrir rhwymedigaethau arfaethedig CSYM mewn perthynas â thwristiaeth (a) – (j). Mae rhwymedigaethau mewn perthynas ag addysg a sgiliau, llety, monitro, rheoli a gorfodi i'w cael mewn mannau eraill yn yr adroddiad.

- a) Bydd y strategaeth twristiaeth a chynllun gweithredu yn sail i ddatblygiad y diwydiant dros y cyfnod paratoi ac adeiladu. Dylid comisiynu hyn cyn gynted ag y rhoddir y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.
- b) Bydd y Swyddog Twristiaeth Strategol yn: rhoi arweiniad strategol ar roi'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth (TAP) ar waith; darparu gwybodaeth i'r TAP a chymryd rhan yn y broses o'i roi ar waith; cysylltu â'r sector ar oblygiadau Wylfa Newydd.
- c) Cyllid parhaus ar gyfer dau swyddog twristiaeth lleol i: ddarparu gweithgareddau o dan y TAP; cefnogi busnesau; cydlynu hyfforddiant busnes; helpu BBaCh yn y sector i ymaddasu i effeithiau Wylfa Newydd.
- d) Cyfraniad blynyddol i fod yn sail i farchnata, hyrwyddo a brandio'r sector twristiaeth. Bydd hyn yn annog marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli ac yn denu marchnadoedd newydd i'r Ynys.
- e) Cronfa Datblygu Darganfod Ynys Môn, a gynlluniwyd yn benodol i wella a datblygu cynhyrchion newydd, llwybrau twristiaeth a phrofiadau i sicrhau economi ymwelwyr gadarn. Bydd y cyfnod hwn yn para am chwe blynedd ac, ar ei ddiwedd, bydd y rhain yn cael eu corffori ym mhrofiad cynnyrch Ynys Môn a'r harlwy marchnata.
- f) Cyfraniad blynyddol ar gyfer gwaith arolwg ymwelwyr i fonitro effeithiau ar yr economi ymwelwyr. Mae CSYM yn cynnig bod yr arolygon hyn yn parhau am 2 flynedd i'r cyfnod gweithredu er mwyn monitro'r effeithiau ar ôl adeiladu.
- g) Mae angen cadarnhau a chostio darpariaeth Canolfan Ymwelwyr a Chyfyngau dros dro a pharhaol o ansawdd uchel yn Wylfa Newydd.
- h) Os collir HTCau, bydd angen datblygu llwybrau mewn mannau eraill a dylid digolledu hynny.
- i) Dylid digolledu ail-bennu Llwybr Arfordirol Cymru a buddsoddiad CSYM, LIC a'r UE.
- j) Unwaith y bydd yn weithredol, dylai Wylfa Newydd barhau i gefnogi'r diwydiant am gyfnod o bum mlynedd. Dylai'r gefnogaeth ganolbwytio ar lai o farchnata a hyrwyddo ac un swyddog twristiaeth am bum mlynedd